Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Canllaw Myfyrwyr

## Canllaw hanfodol i reoliadau, polisïau a gweithdrefnau ym Mhrifysgol Wrecsam

2025/26

**Cynnwys**

1 Cyflwyniad ........ 3
2 Rheoliadau Academaidd ........ 3
3 Apeliadau Academaidd ........ 4
4 Calendr Academaidd ........ 5
5 Asesiadau ac Arholiadau ........ 5
6 Asesiadau ac Anghenion Unigol ........ 6
7 Ymgysylltu Academaidd, Absenoldeb a Salwch ........ 6
8 Uniondeb Academaidd ........ 7
9 Monitro Presenoldeb Myfyrwyr Rhyngwladol ........ 8
10 Bwlio ........ 9
11 Bwrsariaethau ........ 9
12 Cyfathrebu gyda Myfyrwyr ........ 9
13 Cwynion ........ 9
14 Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ........ 10
15 Diogelu Data ........ 10
16 Y Tîm Gweinyddiaeth Myfyrwyr ........ 10
17 Ymrestru ........ 11
18 Cyfle Cyfartal ........ 12
19 Cymeradwyaeth Foesegol ar gyfer Prosiectau Ymchwil neu Draethodau Hir. 12
20 Estyniadau i Waith Cwrs ........ 13
21 Amgylchiadau Esgusodol ........ 13
22 Ffioedd a Chyllid ........ 15
23 Adborth ar Waith wedi'i Asesu ........ 15
24 Graddio ........ 15
25 Aflonyddwch a Bwlio ........ 15
26 Iechyd a Diogelwch ........ 16
27 Cerdyn Adnabod ........ 17
28 Yswiriant ........ 18
29 Hawliau Eiddo Deallusol ........ 18
30 Gwasanaethau TG ........ 18
31 Cyflwyno aseiniadau yn hwyr neu beidio â'u cyflwyno ........ 19
32 Cyfleusterau'r Llyfrgell ........ 19
33 Cynlluniau Dysgu ........ 20
34 Sgiliau Dysgu ........ 20
35 Camymddwyn ........ 21

36 Cofrestru ar Fodiwl ........ 22
37 Dysgu ar-lein - offer, arweiniad ac ymddygiad ........ 23
38 Cosb am Fynd Dros y Nifer Geiriau ........ 24
39 Beichiogrwydd, Mamolaeth, Mabwysiadu a Gofalwr Eilradd (Tadolaeth) Myfyrwyr ........ 24
40 Sicrhau Ansawdd ac Ymglymiad Myfyrwyr ........ 25
41 Cydnabyddiaeth o Ddysg Flaenorol ........ 27
42 Recordio Sesiynau a Gweithgareddau Addysgol ........ 27
43 Cyfryngau Cymdeithasol ........ 28
44 Ffynonellau gwybodaeth, cymorth ac arweiniad ........ 28
45 Siarter Myfyrwyr ........ 30
46 Gwobrau Myfyrwyr ........ 31
47 Cofnodion Myfyrwyr ........ 31
48 Cyflwyno Aseiniadau Gwaith Cwrs ........ 31
49 Addasrwydd i Ymarfer ........ 31
50 Atal astudiaethau ........ 31
51 Amserlenni ........ 32
52 Turnitin ........ 32
53 Myfyrwyr Cymraeg ........ 33
54 Polisi Tynnu'n Ôl ........ 33

## 1 Cyflwyniad

Mae'r Canllaw yn egluro’r rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i agweddau penodol ar eich bywyd a gwaith fel myfyriwr Prifysgol. Er enghraifft, mae'n dweud wrthych lle gallwch ddod o hyd i'r rheoliadau sy'n rheoli sut caiff arholiadau ac asesiadau eu cynnal. Er hwylustod, mae'r ddogfen wedi'i strwythuro yn ôl trefn y wyddor.

Drwy ddod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam, rydych i bob pwrpas wedi ymgymryd â chytundeb, neu gontract, gyda'r Brifysgol. Yn y cytundeb hwn, fel myfyriwr, rydych yn ymrwymo i weithredu yn rhesymol a glynu wrth reoliadau a pholisïau penodol.

Yn yr un modd, mae'n amlinellu lle gallwch ddod o hyd i reoliadau'r Brifysgol, a beth mae'r Brifysgol yn ei ddisgwyl gennych chi. Yn ogystal, mae'n ymdrin â'r weithdrefn gwynion, felly os oes gennych gŵyn ynghylch y ffordd mae'r Brifysgol wedi ymddwyn, byddwch yn ymwybodol o sut i ddod o hyd i'r broses a sut i'w defnyddio.

Fodd bynnag, rhaid i chi gofio mai Canllaw yw hwn. Nid yw'n bosibl iddo grynhoi rheoliadau eithaf cynhwysfawr a chymhleth. Mae'n dweud wrthych lle cewch gopïau o'r rheoliadau a'r dogfennau llawn a lle i fynd am gymorth i'w deall a sut maent yn effeithio arnoch chi a'ch astudiaethau. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y dogfennau hyn gan y byddant yn eich arwain drwy'r rheoliadau, polisïau, gweithdrefnau a phrosesau angenrheidiol y byddwch yn dod ar eu traws yn ystod eich cyfnod ym Mhrifysgol Wrecsam.

Bydd y Porth MyUni ar fewnrwyd y myfyrwyr hefyd yn eich caniatáu chi i gael golwg ar sut mae ein gwasanaethau cefnogi wedi'u trefnu, beth mae pob gwasanaeth yn ei gynnig a'i leoliad, fel y gallwch ddefnyddio'r gefnogaeth a'r arweiniad sydd ei angen arnoch. Y tudalennau Cymorth Myfyrwyr yw'r lle gorau i fynd i gael yr holl wybodaeth yn y canllaw hwn. Gellir dod o hyd i'r holl bolisïau, gweithdrefnau, ffurflenni a chanllawiau cymorth y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn yn Cymorth Myfyrwyr, Gweinyddiaeth Myfyrwyr.

Mae'r Brifysgol hefyd yn adolygu a diweddaru ei rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau o bryd i'w gilydd, fel rhan o'i hymrwymiad i wella eich profiad myfyriwr yn barhaus.

Fel rheol, mae newidiadau yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr cyfredol ar unwaith, heblaw am ffioedd dysgu, sydd fel arfer yn cael eu pennu ar ddechrau eich cwrs ar gyfer eich cwrs cyfan. Dylai'r dogfennau unigol nodi pryd y cawsant eu cymeradwyo, ac i ba fyfyrwyr maent yn berthnasol. Mae fersiynau blaenorol ar gael ar gais.

Mae Prifysgol Wrecsam yn ymrwymedig i sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Os yw unrhyw bolisi'r Brifysgol yn cyflwyno problem mewn perthynas â hyn, dylech geisio cyngor gan y Tîm Cymorth Myfyrwyr neu gan aelod priodol o staff fel y gellir trafod newidiadau addas.

## 2 Rheoliadau Academaidd

Mae Rheoliadau Academaidd y Brifysgol yn darparu'r fframwaith ar gyfer cynnal ei

gweithgareddau academaidd. Maent yn rheoli materion megis derbyn, ymrestru ac asesu. Mae’r Rheoliadau Academaidd yn cynnwys amrywiol adrannau a pholisïau a gweithdrefnau ychwanegol. Mae’r set lawn o ddogfennau i’w cael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

Cynghorir chi yn gryf i gynefino eich hun gyda'r rheoliadau hyn, sydd ar gael drwy'r Porth Myfyrwyr. Dylech gyfeirio at y rheoliadau dyfarnu penodol ar gyfer eich rhaglen i gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut caiff dosbarthiad eich gradd ei bennu. Mae'r rheoliadau sy'n rheoli strwythur a chynnwys y rhaglenni astudio unigol a'r dyfarniadau a gynigir gan y Brifysgol ar gael ym manyleb y rhaglen berthnasol. Yn ogystal, mae adrannau yn darparu llawlyfrau i fyfyrwyr sy'n nodi gwybodaeth benodol ynglŷn â'r rhaglen unigol – er enghraifft, pa fodiwlau y mae'n rhaid i chi ymgymryd â nhw bob blwyddyn, sawl credyd modiwlau y mae'n rhaid i chi lwyddo ynddynt etc. Rhaid i chi sicrhau eich bod wedi darllen y llawlyfr perthnasol i'ch rhaglen.

## 3 Apeliadau Academaidd

Mae gan y Brifysgol bolisi sy'n amlinellu sut i ymgymryd ag apêl academaidd, pan ddymuna myfyriwr apelio yn erbyn penderfyniad Bwrdd Asesu. Er mwyn apelio, rhaid i chi gael rheswm da a digon o dystiolaeth i gefnogi'ch cais; nid yw anghytuno â'ch marciau yn cyfrif fel rheswm dros apelio gan fod hyn yn cwestiynu 'beirniadaeth academaidd'.

Dyma'r rhesymau dros apelio:

- Roedd camgymeriadau neu anghysondebau gweithredol wrth gofnodi, trawsgrifio a/neu adrodd canlyniadau.
- Profwyd diffygion/ anghysondebau o ran cymhwyso'r Rheoliadau Academaidd yn ystod y Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd a allai fod wedi effeithio'n negyddol ar y canlyniad a gofnodwyd.
- Tuedd neu ganfyddiad o duedd.
- Roedd y myfyriwr dan amgylchiadau esgusodol a allai fod wedi effeithio'n negyddol ar ei berfformiad ac mae rheswm da pam na chafodd yr amgylchiadau esgusodol eu cyflwyno yn unol â'r Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol, cyn y Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd.
- Diffygion/anghysondebau yng nghyfansoddiad y panel viva voce (ar gyfer graddau Ymchwil) ac mae rheswm da pam na chafodd y diffygion/anghysondebau eu hadrodd cyn i'r bwrdd perthnasol wneud y penderfyniad.

Pe dymunech apelio, bydd rhaid i chi wneud hynny cyn pen 10 diwrnod gwaith o gyhoeddi'r canlyniadau. Dylid nodi nad yw cyflwyno apêl yn golygu y bydd yn cael ei derbyn yn awtomatig. Os nad yw'n bodloni un o’r rhesymau a nodwyd uchod neu os nad oes unrhyw dystiolaeth ategol, ni fydd yn cael ei symud ymlaen.

https://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk/main-menu/advice.

Mae’r polisi llawn a’r ffurflen ar gael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

## 4 Calendr Academaidd

Mae'r Brifysgol yn gweithredu o fewn fframwaith semester. Mae gan bob semester wythnosau wedi'u neilltuo ar gyfer addysgu ac arholiadau'r Brifysgol ac mae’n adlewyrchu'r wythnosau lle mae disgwyl i fyfyrwyr ymgysylltu â gweithgarwch addysgu a dysgu. Yn dilyn hyn mae blociau o wythnosau ar gyfer prosesau'r bwrdd asesu i bennu cynnydd myfyrwyr a chanlyniadau dyfarnu. Yn ogystal, mae'n bosibl bod gan fyfyrwyr ragor o weithgareddau yn ystod cyfnod yr haf, a all gynnwys addysgu, ail-asesu, traethodau hirion cyrsiau ôl-raddedig a addysgir neu wyliau, yn dibynnu ar y rhaglen. Mae'r calendr academaidd cyhoeddedig hefyd yn cynnwys dyddiadau cau, cyfnodau o wyliau'r Brifysgol a dyddiadau tymor y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

Mae’r Calendr Academaidd ar gael ar yr adran amserlenni ar y Porth MyUni

## 5 Asesiadau ac Arholiadau

Gellir cael asesiadau ar ffurf gwaith cwrs, prosiectau, profion yn y dosbarth ac arholiadau ac mae pob rhaglen yn defnyddio dulliau asesu gwahanol sy'n cyd-fynd â'r cwrs. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ynglŷn ag asesiadau, gan gynnwys teitlau a dyddiadau cyflwyno, ar gael yn llawlyfr eich rhaglen. Mae rheoliadau’r Brifysgol a’r Polisi Asesu i’w canfod ar wefan Prifysgol Wrecsam.

Ar gyfer rhai cyrsiau, bydd disgwyl i chi ymgymryd ag arholiadau ffurfiol ar ddiwedd pob semester. Cyhoeddir yr amserlen arholiadau bedair wythnos cyn yr arholiadau a dylai amserlen unigol fod ar gael ar y dudalen amserlenni, cysylltwch â timetables@wrexham.ac.uk.

Gall dyddiadau arholiadau ar gyfer rhaglenni proffesiynol a safleoedd partner fod yn wahanol a chânt eu darparu gan arweinydd eich rhaglen.

**Hysbysiad Ffit i Eistedd**
Cyn sefyll arholiad rhaid i chi ddarllen y nodiadau canllaw arholiad, gan gynnwys yr hysbysiad Addasrwydd i Sefyll – mae hwn yn ddatganiad sy'n cadarnhau eich bod mewn cyflwr addas i sefyll eich arholiad ac nad oes unrhyw amgylchiadau esgusodol a fydd yn ymyrryd â'ch perfformiad yn yr arholiad.

Os nad ydych chi'n teimlo'n dda, neu'n delio ag amgylchiadau personol eithriadol, yna argymhellir eich bod chi'n cysylltu â thiwtor eich modiwl drwy e-bost. Os na fyddwch chi'n sefyll yr arholiad oherwydd salwch neu amgylchiadau eithriadol eraill, bydd angen i chi gyflwyno hawliad amgylchiadau esgusodol o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad yr arholiad a chynnwys nodyn meddyg, rhag ofn salwch, neu dystiolaeth o unrhyw anawsterau personol. Bydd angen tystiolaeth i gefnogi eich hawliad. Cyfeiriwch hefyd at yr adran yn y canllaw hwn ar

Amgylchiadau Esgusodol.

Os oes angen trefniadau arbennig arnoch ar gyfer arholiad neu brawf yn y dosbarth, bydd y Brifysgol yn gwneud addasiadau rhesymol i drefniadau asesu lle maent wedi'u hawgrymu gan aseswr anghenion dysgu cymeradwy. Am ragor o gyngor ynghylch hyn, dylech gysylltu gyda Gwasanaethau Cynhwysiant.

Mae yna reolau llym mewn perthynas ag ymddygiad yn ystod arholiadau ac mae'r rhain ar gael ym Mholisi Rheoliadau Academaidd ac Asesu'r Brifysgol sydd i'w cael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

## 6 Asesiadau ac Anghenion Unigol

Mewn achos o anabledd neu anghenion unigol, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys am drefniadau asesu arbennig, lle gallwch ddangos y byddai eich perfformiad yn cael ei gyfyngu gan y dull asesu sydd i'w ddefnyddio. Gall trefniadau arbennig gynnwys rhagor o amser, rhywun i ysgrifennu drosoch chi (ysgrifennydd) neu ddefnyddio cymhorthion a chyfarpar arbennig. Dylech drafod gydag arweinydd eich rhaglen yn y lle cyntaf. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o Gwasanaethau Cynhwysiant Cymorth Myfyrwyr.

## 7 Ymgysylltu Academaidd, Absenoldeb a Salwch

Mae'r Brifysgol yn monitro ymgysylltiad yr holl fyfyrwyr â gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn helpu'r Brifysgol i adnabod a chynnig cefnogaeth i fyfyrwyr nad ydynt yn ymgysylltu â'u hastudiaethau. Mae disgwyl i chi ymgysylltu'n weithredol â'ch rhaglen astudio drwy baratoi a mynd i sesiynau wedi'u hamserlennu, ymgysylltu â'r holl weithgarwch dysgu, paratoi ar gyfer arholiadau, cymryd rhan weithredol yn nhiwtorialau, seminarau a gwaith grŵp, a gwneud eich gorau glas mewn aseiniadau. Os nad ydych yn dangos ymgysylltiad â'ch astudiaethau, bydd tîm eich rhaglen yn anelu at gysylltu â chi i drafod unrhyw bryderon. Gall diffyg cysylltu parhaus arwain at dynnu'n ôl o'r rhaglen fel y manylir yn y Polisi Ymgysylltu Academaidd Myfyrwyr sydd ar gael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

Os ydych yn absennol yn ystod eich astudiaethau, rhaid i chi hysbysu'r Brifysgol drwy fewnbynnu manylion yr absenoldeb ar y porth hunan wasanaeth. Mae manylion sut i wneud hyn ar gael yn y canllaw adrodd ar absenoldebau myfyrwyr. Os nad ydych yn rhoi gwybod i'r Brifysgol, mae'n debygol y bydd eich absenoldeb yn cael ei archwilio yn unol â Pholisi Ymgysylltu Academaidd Myfyrwyr y Brifysgol.

Os ydych yn absennol am fwy na phum diwrnod yn olynol, yna bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol megis nodyn gan feddyg. Noder ni allwch ddefnyddio ffurflen wedi'i hunan-ardystio ar gyfer y sefyllfaoedd canlynol:

- Tystiolaeth o amgylchiadau esgusodol.
- Os ydych yn absennol o arholiad.

- Os ydych yn absennol am brawf neu ffurf asesu arall sydd werth dros 10% o farc eich modiwl.
- Os hoffech estyniad i ddyddiad cau.
- Os ydych yn cael mwy na dau gyfnod o salwch o fewn un semester.

Os byddwch yn mynd yn sâl tra eich bod ar leoliad gwaith, rhaid i chi hysbysu'ch unigolyn cyswllt yn y lleoliad gwaith yn ogystal â'ch tiwtoriaid yn y Brifysgol. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn ar gael yn llawlyfr eich rhaglen.

Os na allwch ymgysylltu â'ch rhaglen am gyfnod o amser, er enghraifft, yn sgil salwch neu argyfwng, yna rhaid i chi gysylltu ag Arweinydd eich Rhaglen er mwyn ei wneud yn ymwybodol o'r sefyllfa. Mae'n bosibl y cynghorir chi i atal eich astudiaethau nes eich bod mewn sefyllfa i ymgysylltu'n llawn â'r rhaglen.

## 8 Uniondeb Academaidd

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r holl staff a myfyrwyr weithredu gyda'r safonau uchaf o ran uniondeb academaidd a chyflwyno gwaith eich hun heb ei gopïo/heb ei briodoli i eraill. Gelwir hyn yn camymddwyn academaidd, a gall fod ar amrywiaeth o ffurfiau. Mae gan y Brifysgol wybodaeth fanwl am Uniondeb Academaidd ar y tudalennau Cefnogi Myfyrwyr, yn ogystal â gweithdrefn Uniondeb Academaidd sydd ar gael ar Wefan Prifysgol Wrecsam, sy'n amlinellu hyn mewn manylder ac yn cynnwys:

- **Llên-ladrata**: defnyddio geiriau neu syniadau unigolyn arall heb gydnabyddiaeth a'u cyflwyno i'w hasesu fel pe baent yn waith eich hun.
- **Hunan Lên-ladrata/Ailddefnyddio eich gwaith eich hun:** Ailddefnyddio gwaith yr ydych eisoes wedi ei gyflwyno ar gyfer asesiad arall un ai o fewn y Brifysgol neu mewn sefydliad arall.
- **Defnyddio gwaith pobl eraill (e.e. o fanciau traethodau neu gan fyfyrwyr eraill (anhysbys i'r myfyriwr) ac a gyflwynir fel gwaith y myfyriwr ei hun**: unrhyw weithred sy'n cynnwys trydydd parti (h.y. cyd-fyfyriwr, ffrind neu aelod o'r teulu) yn ymgymryd â gwaith ar eich rhan. Mae hyn yn cynnwys deunydd a gafwyd o wefannau traethodau masnachol, gan gynnwys lle mae hyn ar gael yn gyhoeddus.
- **Contractio gyda 'Melin Traethodau' neu 'wasanaeth twyllo contract'**: mae'r categori hwn yn cynnwys deunydd neu wasanaethau ysgrifennu a brynwyd o wefannau traethodau masnachol ar y rhyngrwyd neu unrhyw asiantaethau tebyg eraill.
- **Defnydd Amhriodol o wefannau, rhaglenni, adnoddau Deallusrwydd Artiffisial :** mae hyn yn cynnwys gwaith a gynhyrchwyd gan adnoddau deallusrwydd artiffisial sydd yna'n cael eu hawlio fel darn o waith ysgrifenedig gan y myfyriwr ei hun. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i wefannau megis ChatGPT a.y.y.b. Gall y safleoedd yma eu hunain fod yn arfau defnyddiol o'u defnyddio'n briodol ond y modd y maent yn cael eu defnyddio sy'n gallu arwain at dorri Uniondeb Academaidd. Dylai myfyrwyr gyfeirio at

ganllawiau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol a chwilio am gyngor gan y Tîm Rhaglen a'r tîm Sgiliau Dysgu yn ôl y galw.

- **Cyd-dwyllo:** gall hyn ddigwydd pan mae myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd ar ddarn o waith ac yn cyflwyno aseiniadau sy'n cynnwys adrannau union yr un fath neu'n debyg iawn. Mae asesiadau wedi'u dylunio i brofi eich dysg **eich hun** a phan gaiff darnau o waith tebyg eu cyflwyno, mae'n anodd dweud pwy sy'n berchen ar y gwaith. Mae caniatáu i rywun gopïo eich gwaith yn drosedd felly gall awdur gwreiddiol y gwaith a'r copïwr wynebu cosb. Peidiwch â rhannu eich gwaith gydag unrhyw un na gadael eich gwaith ar ffurf copi caled neu ar sgrin eich cyfrifiadur neu ar USB i eraill ei weld.
- **Camarfer Arholiadau:** cyflwyno unrhyw ddeunyddiau anawdurdodedig fel llyfr, llawysgrif, data neu bapurau rhydd i ystafell arholi/arholiad ar-lein, neu wybodaeth a geir drwy unrhyw ddyfais electronig.

Mae'r Brifysgol yn cymryd yr holl achosion o gamymddwyn academaidd o ddifrif a lle drwgdybir bod achos o hynny, bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal. Mae amrywiaeth o gosbau y gellir eu rhoi i fyfyrwyr sydd wedi torri'r rheolau hyn, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos. Gall hyn gynnwys terfynu eich astudiaethau.

Os cyflwynir honiad o gamymddygiad academaidd yn eich erbyn, yna rhaid i chi ddarllen y gweithdrefnau y bydd y Brifysgol yn eu dilyn, er mwyn i chi fod yn ymwybodol o'ch hawliau a chyfrifoldebau. Mae'r weithdrefn yn cynnwys 'gwrandawiad'. Os cewch eich hun mewn sefyllfa lle'r ydych wedi'ch cyhuddo o gamymddygiad academaidd, cynghorir chi i fynychu'r gwrandawiad i roi eich adroddiad chi o'r digwyddiad, neu gyflwyno'r amgylchiadau yr arweiniodd atoch yn torri safon yr ymddygiad academaidd sy'n ofynnol.

Os ydych wedi cael eich cyfeirio am gamymddwyn academaidd, gallwch gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr am gyngor a chefnogaeth drwy [suadvice@wrecsam.ac.uk](mailto:suadvice@wrecsam.ac.uk)
[https://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk/main-menu/advice.](https://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk/main-menu/advice)

UM Wrecsam
Wrexham SU

Os nad ydych yn sicr beth yw llên-ladrad, neu sut i gydnabod gwaith rhywun arall yn gywir drwy gyfeirio, yna dylech siarad gyda'ch tiwtor neu gysylltu gyda'r Tîm Sgiliau Academaidd drwy Gefnogi Myfyrwyr, Sgiliau Dysgu, lle gallwch hefyd ddod o hyd i ganllawiau ar sut i gyfeirio.

## 9 Monitro Presenoldeb Myfyrwyr Rhyngwladol

Mae'r Brifysgol yn noddwr Fisa Myfyriwr ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol sy'n dod i'r DU i astudio dan System yn Seiliedig ar Bwyntiau Fisâu a Mewnfudo'r DU. Dan ofynion deddfwriaeth Fisâu a Mewnfudo'r DU, mae dyletswyddau'r Brifysgol yn cynnwys monitro ac adrodd presenoldeb ychwanegol ar gyfer yr holl fyfyrwyr rhyngwladol sydd wedi cael nawdd fisa.

Bydd Myfyrwyr Rhyngwladol nad ydynt yn cydymffurfio â'r holl ofynion ymgysylltu academaidd yn cael eu tynnu'n ôl oddi ar eu rhaglen a bydd y Brifysgol yn hysbysu adran Fisâu a Mewnfudo'r DU nad yw'r myfyriwr yn fyfyriwr a noddir. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am hyn yn y

Polisi Ymgysylltu Academaidd Myfyrwyr ar wefan Prifysgol Wrecsam.

## 10 Bwlio

Gweler yr adran ar Aflonyddu a Bwlio yn y Canllaw hwn.

## 11 Bwrsariaethau

Mae manylion y bwrsariaethau hyn wedi'u cynnwys yn adran Ffioedd a Chyllid y Canllaw hwn.

## 12 Cyfathrebu gyda Myfyrwyr

Mae cyfathrebu effeithiol rhwng myfyrwyr, staff addysgu a gwasanaethau proffesiynol yn hanfodol i sicrhau bod gennych brofiad dysgu cadarnhaol. Cyfnewid gwybodaeth rhwng pob parti yw cyfathrebu effeithiol. Defnyddiwch yr offer sydd ar gael i chi ymgysylltu â'ch Arweinydd Modiwl a Rhaglen, cyfeiriwch hefyd at yr adran Ymgysylltiad Myfyrwyr mewn Sicrhau a Gwella Ansawdd, am ragor o wybodaeth am y ffyrdd y gallwch rannu eich adborth gyda'r Brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn rhoi cyfrif e-bost Prifysgol i fyfyrwyr a fydd yn cael ei ddiogelu a'i gynnal yn briodol a bydd ar gael drwy gydol eich astudiaethau.

**Bydd y Brifysgol yn defnyddio cyfrifon e-bost Prifysgol y myfyrwyr i gyfathrebu gwybodaeth bwysig gyda chi.** Felly, mae gofyn i chi wirio'r cyfrif e-bost o leiaf dwywaith yr wythnos a chynghorir chi i'w wirio yn fwy rheolaidd ar gyfer gohebiaeth gan y Brifysgol.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich cyfrif e-bost Prifysgol yn parhau i fod yn weithredol. Os nad ydych yn gwybod sut i gael mynediad at eich cyfrif e-bost Prifysgol, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda desg gymorth TG (ewch i Cefnogi Myfyrwyr am wybodaeth)

Os oes well gennych ddefnyddio cyfrif e-bost personol, bydd y Brifysgol yn eich cynghori am sut i anfon negeseuon ymlaen o gyfrif y Brifysgol i'ch cyfrif personol. Serch hynny, rhaid i chi ddefnyddio eich cyfrif e-bost Prifysgol o leiaf bob chwe mis i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn weithredol.

Os nad ydych yn gwirio eich cyfrif e-bost yn rheolaidd, gallwch fethu gwybodaeth bwysig ynglŷn â'ch rhaglen, gan gynnwys digwyddiadau a chyfleoedd, darlithoedd neu seminarau wedi'u canslo, ac asesiadau. Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol am i chi golli gwybodaeth sydd wedi'i hanfon i'ch cyfrif e-bost Prifysgol.

## 13 Cwynion

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch godi unrhyw bryderon a allai fod gennych ynghylch y Brifysgol neu wasanaeth a gynigir (gweler yr adran ar Sicrwydd Ansawdd ac Ymwneud Myfyrwyr). Gellir datrys y rhan fwyaf o gwynion yn rhwydd ac anffurfiol drwy eu trafod â'r aelod o staff perthnasol

ac argymhellwn i chi geisio datrysiad anffurfiol cyn gynted ag y profwch broblem. Fodd bynnag, os nad yw datrysiad anffurfiol yn bosib, yna dylech gyfeirio at Weithdrefn Gwyno Myfyrwyr y Brifysgol sydd ar gael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

Dylai myfyrwyr geisio cymorth gan Ganolfan Gyngor Undeb y Myfyrwyr lle gall ymgynghorydd gynnig cefnogaeth ar y cam Anffurfiol, trafod yr opsiynau sydd ar gael a rhoi arweiniad ynglŷn â'r Weithdrefn Gwynion Myfyrwyr.
https://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk/main-menu/advice

UM Wrecsam
Wrexham SU

Dylai myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner ddilyn polisi cwyno'r partner yn gyntaf.

## 14 Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Mae rhai rhaglenni yn y Brifysgol, yn arbennig y rheiny sydd ag elfennau proffesiynol neu leoliadau gwaith, yn ei gwneud yn ofynnol i chi ymgymryd â gwiriad DBS. Lle mae hyn yn angenrheidiol, **ni ellir cwblhau eich ymrestriad nes i'r Brifysgol gael canlyniad eich gwiriad DBS** ac **ni fyddwch yn gallu ymgymryd ag unrhyw leoliadau gwaith proffesiynol nes bod y gwiriad DBS wedi'i gwblhau.**

## 15 Diogelu Data

Mae'r holl wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi yn cael ei thrin o fewn darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018. Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer gweinyddu eich cynnydd drwy eich astudiaethau, eich darparu chi â gwasanaethau cefnogi angenrheidiol, a'ch hysbysu am raglenni neu wasanaethau eraill gan Brifysgol Wrecsam a all fod o ddiddordeb i chi. Mae'n bosibl y bydd gofyn i ni anfon peth o'r wybodaeth a gedwir gennym amdanoch chi at nifer o sefydliadau eraill.

Mae'r Datganiad Preifatrwydd Myfyrwyr yn cynnig gwybodaeth ynghylch y defnydd o 'wybodaeth bersonol' pan fyddwch yn dechrau dangos diddordeb mewn dod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam, pan fyddwch wedi cofrestru/ymrestru fel myfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam, ac wedi i chi raddio.

## 16 Y Tîm Gweinyddiaeth Myfyrwyr

Os ydych yn fyfyriwr ar gampws Wrecsam, gall Gweinyddiaeth Myfyrwyr ddarparu cymorth a chyngor ar weinyddiaeth eich rhaglen, ochr yn ochr â'ch tiwtoriaid. Os ydych yn astudio un o'n rhaglenni ar-lein PGW, byddwch hefyd yn cael eich cefnogi gan ein Cydlynwyr Llwyddiant Myfyrwyr.

Dylech gysylltu â'r tîm Gweinyddiaeth Myfyrwyr os:

- Mae newidiadau i'r hyn rydych chi'n ei astudio, gan gynnwys newidiadau modiwl, newid rhaglen, newid eich dull mynychu (rhan-amser i amser llawn neu i'r gwrthwyneb), a

rhaid i bob un o'r rhain gael eu hawdurdodi gan arweinydd eich rhaglen yn gyntaf.

- Mae newidiadau i'ch enw (bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn, e.e. tystysgrif priodas neu awdurdod newid enw).
- Rydych chi'n ceisio estyniad i'ch cyfnod cofrestru.

Gall y tîm Gweinyddiaeth Myfyrwyr ddarparu canllawiau ynglŷn â'r gwaith papur angenrheidiol a'ch cynorthwyo / cyfeirio'n unol â hynny ar y rhan helaethaf o faterion mewn perthynas â'ch taith myfyriwr. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys eich enw llawn a'ch rhif myfyriwr ym mhob gohebiaeth gyda Gweinyddiaeth Myfyrwyr.

Os ydych yn fyfyriwr yn un o'n colegau partner, bydd gwaith dyddiol gweinyddiaeth myfyrwyr yn cael ei gyflawni'n lleol.

## 17 Ymrestru

Mae ymrestru yn bwysig oherwydd mae'n cadarnhau'n ffurfiol eich bod ynghlwm â rhaglen ac mae'n eich darparu â hawl i ddefnyddio cyfleusterau Prifysgol Wrecsam: ni fyddwch yn cael unrhyw gredyd am eich astudiaeth nac yn cael unrhyw ddyfarniad neu gymhwyster terfynol oni bai eich bod wedi ymrestru ar bob blwyddyn academaidd eich rhaglen.

Ymrestru ym Mhrifysgol Wrecsam yw'r ysgogiad hefyd i Gyllid Myfyrwyr ac asiantaethau cymorth eraill i gyhoeddi unrhyw fenthyciadau neu grantiau sydd wedi'u cynnig i chi: mae taliadau fel arfer yn cael eu gwneud drwy gredyd uniongyrchol i'ch cyfrif banc. **Ni fyddwch yn cael y benthyciadau neu'r grantiau hyn** oni bai eich bod wedi ymrestru. (Noder y bydd fel arfer yn cymryd hyd at bum diwrnod gwaith i Gyllid Myfyrwyr dalu'r benthyciadau a'r grantiau ar ôl i ni eu hysbysu eich bod wedi ymrestru). Bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn talu'r ffioedd ar gyfer y myfyrwyr ar raglenni israddedig yn uniongyrchol i'r Brifysgol. Bydd myfyrwyr ôl-raddedig yn cael eu cyllid a bydd angen iddynt dalu'r ffioedd yn uniongyrchol i'r Brifysgol eu hunain yn eu tro.

Mae'n hynod bwysig eich bod yn nodi, wrth gadarnhau eich ymrestriad ar-lein, eich bod yn cytuno i lynu wrth reolau a rheoliadau Prifysgol Wrecsam sydd wedi'u hamlinellu yn y cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill. Mae'r rheolau hyn yn ymdrin â materion megis presenoldeb, ymddygiad, cyfrifoldebau ariannol a chyfrifoldebau eraill wrth astudio yn y Brifysgol.

Unwaith y byddwch wedi ymrestru, cewch eich **Rhif Myfyriwr** Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wyth digid, unigryw y byddwch yn ei gadw drwy gydol eich cyfnod fel myfyriwr. Bydd hyn yn eich caniatáu i ymuno â'r Llyfrgell, cael mynediad at eLyfrau ac eGyfnodolion, cael cyfrif ar y rhwydwaith TG ac ymuno â'r Undeb Myfyrwyr etc. Cewch gerdyn Myfyriwr wrth ymrestru, gweler yr adran isod am ragor o wybodaeth ynglŷn â phwysigrwydd eich Cerdyn Myfyriwr.

Os ydych yn methu ag ymrestru, nid oes gennych yr hawl i ddefnyddio cyfleusterau'r Brifysgol. Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr llawn amser a rhan amser, a myfyrwyr israddedig, ôl-raddedig

ac ymchwil. Mae'n berthnasol i aelodau o staff sydd hefyd yn dilyn rhaglen astudio yn y Brifysgol. Yn ogystal, yn awtomatig fel rhan o'ch ymrestriad cewch hawl i ddefnyddio Rhith-amgylchedd Dysgu (VLE) Prifysgol Wrecsam, ar gyfer y modiwlau yr ydych wedi cofrestru ar eu cyfer fel rhan o'ch rhaglen. Os nad ydych yn ymrestru ni chewch hawl i ddefnyddio'r elfen bwysig hon o'ch adnoddau dysgu.

Mae'n rhaid ymrestru o fewn pythefnos o gychwyn y tymor addysgu pob blwyddyn academaidd. Os na fyddwch yn ymrestru, byddwch yn colli eich lle ar eich rhaglen.

Noder bod angen ymrestru bob blwyddyn ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd, neu ar ddechrau bob modiwl ar gyfer myfyrwyr ar-lein WU.

## 18 Cyfle Cyfartal

Mae Prifysgol Wrecsam yn ymroddedig i egwyddorion cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd prifysgol. Rydym yn gweithio'n galed i greu amgylchedd teg, cynhwysol i holl aelodau'r gymdeithas. Gall myfyrwyr ddisgwyl cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhywedd, hil, crefydd neu gredo neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae gan y Brifysgol gyfrifoldebau penodol i'w myfyrwyr dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) ac mae'n gweithio o fewn y canllawiau a ddarparwyd gan *Advance HE* (yr Uned Herio Cydraddoldeb gynt) i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael y profiad gorau posibl.

## 19 Cymeradwyaeth Foesegol ar gyfer Prosiectau Ymchwil neu Draethodau Hir

Rhaid i bob myfyriwr sy'n cynnal prosiectau ymchwil a thraethodau ymchwil wneud hynny'n foesegol, yn gyfrifol, ac yn onest. Mae'r Brifysgol yn mynnu bod unrhyw ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, deunyddiau dynol, data personol, anifeiliaid, neu a allai effeithio ar yr amgylchedd yn cael cymeradwyaeth moeseg ymchwil cyn dechrau. Dylai pob myfyriwr ymgyfarwyddo ag egwyddorion ac ymrwymiad y Brifysgol i ymchwil foesegol fel yr amlinellir ym Mholisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol.

Rhaid cyflwyno pob cais myfyrwyr am gymeradwyaeth moeseg ymchwil drwy System Moeseg Ymchwil Wrecsam. Mae canllawiau defnyddwyr, canllawiau moeseg ymchwil a thempledi a gymeradwywyd gan y Brifysgol i gyd ar gael ar Dudalennau Gwe Moeseg Ymchwil y Brifysgol. Caiff pob cais moeseg ymchwil myfyrwyr ei gymeradwyo yn gyntaf gan eu goruchwyliwr cyn cael ei gyflwyno i bwyllgor moeseg ymchwil i'w adolygu, sylwadau a chymeradwyaeth derfynol. Ni all unrhyw ymchwil ddechrau nes i chi dderbyn cadarnhad o gymeradwyaeth moeseg ymchwil.

Cyn cyflwyno cais, dylai myfyrwyr drafod ystyriaethau moesegol eu prosiect ymchwil neu draethawd ymchwil gyda'u goruchwyliwr, a fydd yn eu cynorthwyo gyda'r broses ymgeisio a chymeradwyo. Disgwylir i brosiectau ymchwil myfyrwyr fod â risg fach iawn. Dylai myfyrwyr hefyd ymgyfarwyddo â dogfennaeth Strwythur a Lefelau Risg y Pwyllgor Moeseg Ymchwil.

## 20 Estyniadau i Waith Cwrs

Os ydych yn ymwybodol o anawsterau personol a fydd yn ei gwneud yn anodd i chi gwblhau eich gwaith o fewn y terfyn amser penodedig, dylech siarad ag Arweinydd eich Modiwl cyn gynted â phosibl (a chyn y dyddiad cau) i weld a allwch gytuno ar estyniad i y terfyn amser hwnnw.

Mae gennych yr hawl i gyflwyno cais am wythnos o estyniad i gyflwyno gwaith cwrs wedi'i asesu. Rhaid gwneud y cais o leiaf 24 awr cyn y dyddiad cyflwyno gwreiddiol, a dylech anfon y cais trwy e-bost at yr Arweinydd Modiwl perthnasol. Dim ond ceisiadau o hyd at wythnos y bydd Arweinwyr Modiwlau yn eu hystyried, a gyflwynir o fewn y dyddiad cau. Os ydych wedi methu'r dyddiad cau neu os oes angen i chi wneud cais am fath gwahanol o estyniad, yna cyfeiriwch at y weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol isod.

Os ydych yn fyfyriwr sydd eisoes ag estyniad i'ch dyddiad cyflwyno, oherwydd addasiad rhesymol a argymhellir gan y Gwasanaethau Cynhwysiant, yna gallwch gyflwyno cais pellach ond rhaid ei gyflwyno o leiaf 24 awr cyn eich dyddiad cyflwyno diwygiedig.

## 21 Amgylchiadau Esgusodol

Os ydych wedi profi digwyddiadau annisgwyl a all fod wedi cael effaith sylweddol ar eich perfformiad academaidd ar adeg asesu, gallech gyflwyno cais am amgylchiadau esgusodol. Gall hyn gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) salwch; profedigaeth; salwch aelod agos o'r teulu; cyfrifoldebau gofalu annisgwyl; neu faterion eraill sydd wedi cael effaith negyddol ar eich dysgu yn eich barn chi.

Gellir canfod y Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol llawn hefyd ar wefan Prifysgol Wrecsam.

Amgylchiadau Esgusodol yw pan fydd amgylchiadau neu ddigwyddiadau sy'n:

- **Arbennig** - gwahanol i'r hyn sydd i'w ddisgwyl yn eich bywyd dydd i ddydd.
- **Annisgwyl** - lle bod dim posib rhagweld yr amgylchiadau yn codi, nac ychwaith posib cynllunio ar eu cyfer.
- **Tu hwnt i'ch rheolaeth** - lle nad oedd posib i chi wneud dim er mwyn atal yr amgylchiadau rhag codi.
- **Byrdymor** - lle nad ydych yn disgwyl i'r amgylchiadau eich effeithio am gyfnod hir.

Gall pob myfyriwr sy'n astudio am gymhwyster a ddyfernir gan Brifysgol Wrecsam wneud cais am amgylchiadau esgusodol.

Dylai myfyrwyr sy'n profi amgylchiadau anodd yn annisgwyl geisio cefnogaeth gan Cymorth Myfyrwyr (ASK@wrexham.ac.uk) a chyngor annibynnol gan Undeb y Myfyrwyr (SUAdvice@wrexham.ac.uk). Cyn gwneud cais am AE, dylech ystyried y canlynol:

- Ydych chi wedi siarad â thîm y rhaglen am estyniad byr? Gall tîm y rhaglen ddarparu

estyniad byr o un wythnos ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno.

- Ydy hyn yn ymwneud â chyflwr neu anabledd a oedd eisoes yn bodoli? Os oes gennych gyflwr neu anabledd hirdymor fel y diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), gallwch ddewis gweithio â'ch Arweinydd Rhaglen i ddatblygu Cynllun Dysgu fel ffordd o reoli eich ymrwymiadau cwrs. Gweler yr adran Cynlluniau Dysgu.
- A yw gwerth y credydau sy'n ymwneud â fy nghais yn werth 80 credyd neu fwy? Mae'r Rheoliadau Academaidd yn nodi y rhoddir caniatâd i ail-wneud asesiadau yn ystod y cyfle nesaf fydd ar gael, a hynny dim ond os nad yw'r credydau ar gyfer y modiwlau a fethwyd neu y'u gohiriwyd â chaniatâd yn werth mwy nag 80 credyd. Os fydd cyfanswm y credydau yn eich cais/ceisiadau AE yn uwch nag 80 credyd, golygir ei bod yn debygol fydd y byrddau asesu yn pennu y dylech ail-sefyll y flwyddyn.
- A fydd yr amgylchiadau yn eich effeithio yn yr hirdymor? Os byddwch yn absennol yn yr hirdymor, dylech gyflwyno ffurflen gohirio astudiaethau.

**Cyflwyno hawliad**
Rhaid cyflwyno hawliadau AE cyn pen **15 diwrnod gwaith** o ddyddiad yr asesiad drwy'r broses gyflwyno ar-lein ar e:Vision.

Rhaid i dystiolaeth a gyflwynir gynnwys cofnod manwl o'ch sefyllfa a dylai hefyd gynnwys dogfennaeth annibynnol. Cyfeiriwch at y Canllaw Gofynion Tystiolaethol

Gellir dod o hyd i ganllaw ar sut i gyflwyno eich cais ar e:Vision ar y dudalen porth Gweinyddu Myfyrwyr.

Noder: Ar ôl y dyddiad cau hwn, ni fyddwch yn gallu cyflwyno hawliad am AE. Fodd bynnag, os oedd rheswm dilys pam na wnaethoch gyflwyno eich hawliad amgylchiadau esgusodol cyn y Bwrdd Asesu, mae'n bosib y byddwch yn gallu cyflwyno ffurflen ar gyfer Apêl Academaidd.

Os caiff eich hawliad ei gadarnhau, yna byddwch yn cael gohiriad. Os ydych eisoes wedi cyflwyno darn o waith ac wedi derbyn marc dros dro gan eich tiwtor, bydd y marc hwn yn cael ei ddychwelyd i 0 ac fel arfer byddwch yn cael y cyfle i ailgyflwyno'r gwaith ar y cyfle nesaf sydd ar gael heb golli ymgais. Os colloch chi ddyddiad cau cyflwyno, byddwch yn cael marc o 0 ac fel arfer byddwch yn cael y cyfle i gyflwyno'r gwaith ar y cyfle nesaf sydd ar gael heb golli ymgais.

I gael cefnogaeth a chyngor annibynnol ar wneud hawliad Amgylchiadau Esgusodol, argymhellir eich bod yn cysylltu â Chanolfan Gynghori Undeb y Myfyrwyr: suadvice@wrexham.ac.uk
https://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk/main-menu/advice

UM Wrecsam
Wrexham SU

## 22 Ffioedd a Chyllid

Fel myfyriwr, mae'n bwysig eich bod yn deall strwythurau Ffioedd a Chyllid y Brifysgol. Cewch ragor o wybodaeth ar y dudalen Ffioedd a Chyllid ar wefan y Brifysgol lle byddwch hefyd yn dod o hyd i'r Rheoliadau Ffioedd Dysgu Myfyrwyr. Gallwch hefyd gael mynediad at ragor o wybodaeth ar y tudalennau Cyllid Myfyrwyr a Chyngor Ariannol ar y safle Cymorth Myfyrwyr.

Dilynir o Polisi Adennill a Chasglu Dyledion ar gyfer casglu ac adennill dyled myfyrwyr a gellir defnyddio cosbau amrywiol yn dibynnu ar y ffioedd sy'n ddyledus. Mae'n ofynnol talu unrhyw ddyled sy'n weddill cyn y gellir cyflwyno eich dyfarniad, cyhoeddi tystysgrif neu gadarnhau eich presenoldeb mewn seremoni raddio.

Os ydych yn gymwys ar gyfer bwrsariaeth y GIG, dylech ddarllen y **Rheoliadau Bwrsariaeth** sy’n darparu’r holl wybodaeth rydych ei angen ynghylch cymhwysedd, hysbysiad ynghylch eich bwrsariaeth a beth sy’n digwydd os ydych yn gohirio eich astudiaethau, trosglwyddo i raglen neu brifysgol arall neu dynnu’n ôl.

## 23 Adborth ar Waith wedi'i Asesu

Fel egwyddor gyffredinol, dylid rhoi canlyniadau heb eu cwblhau ac adborth ar waith wedi'i asesu i fyfyrwyr cyn gynted â phosibl ac fel rheol cyn pen uchafswm o dair wythnos waith i'r dyddiad cyflwyno. Dylai'r trefniadau hyn fod yn berthnasol i adborth ar yr holl gyflwyniadau asesiadau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys gwaith a gyflwynwyd ar ddiwedd blwyddyn. Dylech gyfeirio at lawlyfr eich rhaglen ar gyfer strategaeth asesu ac adborth ffurfiannol eich rhaglen.

## 24 Graddio

Wedi i chi gwblhau eich cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn gymwys i raddio o'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn rhannu dyddiadau graddio gyda chi gyda digon o rybudd. Byddwch yn ymwybodol os oes gennych arian yn ddyledus i'r Brifysgol o ran ffioedd dysgu, na fyddwch yn gallu graddio na derbyn eich tystysgrif.

## 25 Aflonyddwch a Bwlio

Nod y Brifysgol yw darparu amgylchedd diogel a chefnogol i fyfyrwyr, ac mae disgwyl i fyfyrwyr drin eraill gydag urddas a pharch. Mae’r Siarter Myfyrwyr hefyd yn atgoffa myfyrwyr i:

> “Fod yn ofalus o sut all eich ymddygiad gael effaith ar eraill, a pharchu hynny, a thrin eraill yn gyfartal ac yn barchus, gan gymryd cydraddoldeb ac amrywiaeth o ddifrif, a chreu cymuned gynhwysol ar y campws.”

Yn anffodus, ar brydiau mae myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu haflonyddu neu fwlio, naill ai gan fyfyriwr(wyr) arall/eraill neu gan aelod o staff. Mae gan y Brifysgol Bolisi a Gweithdrefn

Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio sy'n egluro beth a ddeëllir gan aflonyddu a bwlio, a'r camau y dylech eu cymryd os ydych chi'n teimlo eich bod mewn sefyllfa o'r fath. Mae'r Brifysgol yn ystyried yr holl honiadau o ddifrif ac yn ymdrin â nhw'n brydlon, ac yn gyfrinachol lle bynnag mae hynny'n bosibl.

Mae'r Polisi a Gweithdrefn Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio hefyd yn berthnasol yn yr un modd i gysylltiadau ar-lein, yn ogystal â wyneb yn wyneb. Atgoffir myfyrwyr bod disgwyl iddynt gadw at delerau ac amodau Defnyddio Rhwydwaith a Chyfleusterau TG Prifysgol Wrecsam sy'n nodi:

> "Ni ddylech anfon unrhyw negeseuon sy'n: aflonyddu, bygwth neu godi cywilydd yn fwriadol ar unrhyw dderbynnydd bwriadedig; cynnwys iaith sarhaus neu reglyd; neu gynnwys atgas, hiliol neu ethnig wrthwynebus."

Am gymorth a chyngor annibynnol, yn ymwneud ag achosion o aflonyddu neu fwlio, cysylltwch â Chanolfan Gynghori Undeb y Myfyrwyr: suadvice@wrexham.ac.uk
https://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk/main-menu/advice

UM Wrecsam
Wrexham SU

## 26 Iechyd a Diogelwch

Dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974) a deddfwriaethau eraill, mae gan y Brifysgol ddyletswydd i reoli iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant yr holl staff, myfyrwyr, ymwelwyr a chontractwyr tra eu bod yn y brifysgol.

Yn eich maes astudio, mae staff academaidd yn gyfrifol am sicrhau bod asesiadau risg addas wedi eu cynnal ac wedi eu cyfathrebu i chi. Dylech ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau llafar neu ysgrifenedig a roddir i chi i amddiffyn eich iechyd a diogelwch (e.e. gwisgo sbectol ddiogelwch neu ddillad amddiffynnol eraill, defnyddio offer a chyfarpar yn ôl cyfarwyddyd, gan ddefnyddio systemau echdynnu lleol).

Chi sy'n gyfrifol am ofalu am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun, yn ogystal â phobl eraill a all gael eu heffeithio gan eich ymddygiad. Dylech chi:

- Gydymffurfio â staff a dilyn cyfarwyddiadau a roddir
- Beidio ag amharu neu gamddefnyddio, yn fwriadol neu'n ddiofal, unrhyw eitem a ddarperir at ddibenion iechyd a diogelwch
- Rhoi gwybod i aelod o staff am unrhyw beth a all gyflwyno perygl cyn gynted â phosibl.

Mae gennym lawer o gyfarpar i'ch cynorthwyo gyda'ch astudiaethau yn y Brifysgol. Mae gofyn i'r holl gyfarpar gael ei archwilio a'i gynnal a'i gadw'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel - PEIDIWCH â dod ag unrhyw offer neu gemegau eich hun ar y safle. Bydd hyn yn ein

cynorthwyo i sicrhau ein bod wedi cadarnhau bod y cyfarpar yn barod i'w ddefnyddio.

Dylech sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau tân ac argyfwng sy'n berthnasol i'r lleoliadau yr ydych chi'n astudio a byw ynddynt. Mae yna gynlluniau sy'n dangos y man ymgasglu agosaf ac mae llwybr dianc ar draws y brifysgol.

Pe baech yn dod o hyd i dân, sicrhewch eich bod yn canu'r larwm tân drwy ddefnyddio'r pwynt larwm "break glass" sydd wedi ei leoli ar allanfeydd tân. Pan glywch y larwm tân, sicrhewch eich bod yn gadael yr adeilad yn syth gan fynd i'r man ymgynnull agosaf. Peidiwch â defnyddio'r diffoddwyr tân i geisio ymladd y tân - maent yno i'ch cynorthwyo i adael pe bai'r allanfeydd wedi eu peryglu gan dân. Peidiwch â cheisio ymladd tân - dylid gadael hyn i'r Gwasanaeth Tân. Bydd defnyddio diffoddwyr tân yn fwriadol am resymau nad ydynt yn ymwneud â'r diben hwn yn arwain at gyhoeddi dirwy a gallai arwain at gamau gweithredu disgyblaethol yn eich erbyn.

Dilynwch unrhyw reolau sydd ar waith i atal tannau rhag dechrau a lledaenu. Er enghraifft, peidiwch â gadael drysau tân ar agor gan y gallai hynny beryglu eich dihangfa ddiogel, peidiwch â gadael i sbwriel gasglu, cadwch ddeunyddiau fflamadwy yn ddiogel a chadwch lwybr dianc mewn achos o dân yn glir.

Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnoch i adael yr adeilad oherwydd anabledd neu nam, rhowch wybod i'ch tiwtor personol cyn gynted ag y bo modd fel bod modd datblygu cynllun gwacâd brys gyda chi.

Pe baech yn cael damwain tra ar dir y Brifysgol, mae swyddogion sydd wedi eu hyfforddi mewn cymorth cyntaf ar gael ar bob campws i'ch cynorthwyo. Mewn argyfwng, gellir cysylltu â swyddog cymorth cyntaf drwy ffonio **Derbynfa'r Campws** ar **01978 293494** neu'r **Rhif Ffôn Brys, 01978 293333** (Campysau Wrecsam yn unig).

Dylid adrodd am bob damwain fel bod modd i ni ymchwilio pam y digwyddodd ac, os yn angenrheidiol, gweithredu gwelliannau i rwystro damwain debyg rhag digwydd eto. Anogir chi i adrodd am ddigwyddiadau cael a chael (e.e. digwyddiadau a allai fod wedi achosi damwain ond na wnaeth, wrth lwc) fel bod modd i ni sicrhau bod unrhyw welliannau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith cyn i ddamwain fwy difrifol ddigwydd. Dylid anfon ffurflenni damwain a digwyddiadau cael a chael sydd wedi eu cwblhau i Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn healthandsafety@wrexham.ac.uk). Mae'r ffurflenni hyn ar gael ar-lein ar dudalennau Cefnogi Myfyrwyr, Gweinyddiaeth Myfyrwyr.

## 27 Cerdyn Adnabod

Os ydych wedi ymrestru ar raglen astudio ar gampws y Brifysgol, neu ar raglen ar-lein, mae eich Cerdyn Adnabod Prifysgol Wrecsam, sydd fel arfer yn cael ei roi i chi pan fyddwch yn ymrestru, yn 'adnodd' hanfodol yn ystod eich astudiaethau. Byddwch angen y cerdyn i gofnodi'ch presenoldeb mewn digwyddiadau addysgu sydd wedi'u hamserlennu. Mae'n caniatáu

mynediad i adeiladau ac yn gerdyn aelodaeth i'r llyfrgell. Felly, dylai fod eich cerdyn o fewn eich cyrraedd bob amser tra eich bod ar y campws. Cymerwch ofal ohono, codir tâl am gardiau sydd wedi'u colli neu eu niweidio.

## 28 Yswiriant

Mae Prifysgol Wrecsam yn sicrhau bod myfyrwyr cofrestredig wedi'u cynnwys yn briodol at ddibenion yswiriant. Darperir yswiriant ar gyfer y canlynol:

- Adeiladau Prifysgol Wrecsam
- Iawndal am anaf lle ystyrir mai Prifysgol Wrecsam sy'n gyfrifol
- Yswiriant damweiniau personol a theithio ar gyfer ymweliadau sy'n ymwneud â busnes Prifysgol Wrecsam
- Yswiriant cerbydau modur (y mae Prifysgol Wrecsam yn berchen arnynt)

Os ydych ynghlwm â digwyddiad a all gael goblygiad yswiriant, rhowch wybod i'ch Arweinydd Rhaglen a fydd yn cwblhau'r gwaith papur angenrheidiol. Cyfeiriwch at yr adran Iechyd a Diogelwch, lle mae manylion gofynion ar wahân ar gyfer damweiniau personol. Noder fod eiddo a cherbydau personol sydd ar gampysau ac eiddo Prifysgol Wrecsam yn cael eu gadael ar eich menter eich hun. Mae hyn yn cynnwys eiddo myfyrwyr ym mhreswylfeydd Prifysgol Wrecsam.

Argymhellir yn gryf i chi ymgymryd ag yswiriant i'ch eiddo. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fyfyrwyr sy'n byw mewn llety Prifysgol Wrecsam. Gall yr Undeb Myfyrwyr roi cyngor defnyddiol am yswirio eich eiddo. Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Undeb y Myfyrwyr.

## 29 Hawliau Eiddo Deallusol

Yn ystod eich astudiaethau, mae'n bosibl y byddwch yn creu syniadau newydd a gelwir hyn yn Eiddo Deallusol (ED). Term i ddisgrifio allbynnau ymdrech greadigol ym meysydd llenyddiaeth, artistig, diwydiannol, gwyddonol a pheirianneg yw ED a ellir ei ddiogelu'n eang dan ddeddfwriaeth.

Fel creawdwr Eiddo Deallusol, mae gennych chi a'r Brifysgol hawliau i hyn. Mae Hawliau Eiddo Deallusol yn rhoi cydnabyddiaeth gyfreithiol i berchnogaeth ED. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Polisi Eiddo Deallusol ar y Porth Myfyrwyr.

## 30 Gwasanaethau TG

Disgwylir i fyfyrwyr gadw at delerau ac amodau defnyddio Rhwydwaith a Chyfleusterau TG Prifysgol Wrecsam sydd ar gael ar dudalennau Gwasanaethau TG, ar y Porth Myfyrwyr.

**E-bost**

Bydd y Brifysgol yn rhoi cyfrif e-bost i chi a fydd yn cael ei ddiogelu a'i gynnal yn briodol, ac i'r cyfeiriad e-bost hwn y bydd y Brifysgol yn anfon gohebiaeth. Dylech wirio'r cyfrif e-bost hwn o leiaf dwywaith yr wythnos. Os oes well gennych beidio â defnyddio'r cyfrif hwn, yna dylech sefydlu gwasanaeth anfon ymlaen i gyfrif yr ydych yn ei wirio'n fwy rheolaidd i sicrhau nad ydych yn methu negeseuon pwysig gan eich tiwtoriaid neu'r Brifysgol.

**Y Rhith-amgylchedd Dysgu (VLE) a'r porth MyUni**

Caiff y Rhith-amgylchedd Dysgu (VLE) ym Mhrifysgol Wrecsam ei ddefnyddio gan yr holl raglenni i drefnu a chyflwyno eich taith dysgwyr a rhannu gwybodaeth bwysig ynglŷn â'ch cwrs a chynnwys y cwrs. Fel arfer, gofynnir i chi hefyd gyflwyno gwaith a aseswyd drwy'r VLE.

Y porth MyUni yw eich siop un stop ar gyfer dolenni at offer digidol ac adnoddau y byddwch eu hangen ar gyfer eich astudiaethau, gan gynnwys y VLE, Resource Finder, Microsoft 365 a'ch e-bost myfyriwr.

Mae canllawiau ychwanegol i fyfyrwyr ar ddefnyddio'r VLE ac adnodau digidol eraill i'w canfod yn Cymorth i Fyfyrwyr, Sgiliau Dysgu.

## 31 Cyflwyno aseiniadau yn hwyr neu beidio â'u cyflwyno

Oni bai eich bod wedi cael estyniad cytunedig i ddyddiad cau, y marc uchaf y gellir ei roi i waith sydd wedi'i gyflwyno hyd at bum diwrnod yn hwyr yw 40%. Os bydd eich gwaith yn cael ei gyflwyno mwy na phum diwrnod yn hwyr, bydd y gwaith yn cael marc sero a byddwch yn methu'r asesiad. Cofiwch: mae mwy o fyfyrwyr yn methu drwy beidio â chyflwyno yn hytrach na thrwy waith anfoddhaol.

## 32 Cyfleusterau'r Llyfrgell

Mae manylion cyfleusterau'r llyfrgell ar gael ar dudalennau Gwasanaethau'r Llyfrgell ar y Tudalen Cymorth Myfyrwyr. Gellir dod o hyd i ddolen i gatalog y llyfrgell (Resoirce Finder) yma hefyd. Mae Resource Finder yn cynnig mynediad at adnoddau electronig (cronfeydd data, cylchgronau electronig a llyfrau electronig) ac yn eu gwneud ar gael i ddefnyddwyr awdurdodedig (myfyrwyr a staff cyfredol Prifysgol Wrecsam). Mae'r llyfrgell yn llofnodi trwydded gyda chyhoeddwr pob adnodd electronig. Darperir hawl i ddefnyddio adnoddau electronig dan delerau eglur fel y nodir yn y drwydded ac yn unol â chyfraith hawlfraint.

Mae telerau'r drwydded yn amrywio fesul cyhoeddwr ond yn gyffredinol mae'r defnydd a ganiateir fel a ganlyn:

- Defnyddio at ddibenion ymchwil anfasnachol, addysgu neu astudiaeth breifat
- Cewch argraffu neu lawrlwytho un copi o erthygl neu bennod mewn llyfr at ddefnydd personol
- Cewch rannu dolen i erthygl neu bennod mewn llyfr gyda myfyrwyr a staff Prifysgol Wrecsam.

**Ymddygiad Derbyniol yn y Llyfrgell:**
Ein nod yw darparu Llyfrgell sy'n ffafriol i astudio, ac ar yr un pryd ceisio â chynnig ystod o wahanol amgylcheddau i astudio'n unigol ac mewn grŵp. Ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n astudio ar gampws Wrecsam, rydym yn gofyn i'r holl ddefnyddwyr fod yn ymwybodol o'r rheoliadau canlynol:

- **Sŵn** - rydym yn deall y gall siarad yn dawel fod yn angenrheidiol yn y Llyfrgell. Fodd bynnag, os yw'r sgwrs yn amharu ar ddefnyddwyr eraill efallai y byddwn yn gofyn i chi adael.
- **Ffonau Symudol** - rhaid i chi ddiffodd sain eich ffonau symudol tra eich bod yn y Llyfrgell. Mae sŵn ffonau symudol yn canu a sgyrsiau uchel yn achos amhariad sylweddol i'n defnyddwyr. Fodd bynnag, mae'n dderbyniol anfon a derbyn negeseuon testun cyn belled â bod sŵn signal a deialu galwadau wedi'i ddiffodd.
- **Bwyd a Diod -** caniateir diodydd a byrbrydau ysgafn yn y Llyfrgell, ond os yw'r rhain yn amharu ar allu eraill i astudio mae'n bosibl y gofynnir i chi fwyta yn rhywle arall.

Mae'r rheoliadau hyn er budd holl ddefnyddwyr y Llyfrgell ac yn ein helpu ni i ddarparu amgylchedd mor bleserus â phosibl.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys oriau agor, benthyca ac adnewyddu llyfrau a chanllawiau ynghylch sut i ganfod llyfrau ar gael yn Cymorth Myfyrwyr, Gwasanaethau'r Llyfrgell.

## 33 Cynlluniau Dysgu

Mae cynllun dysgu yn adnodd cefnogol sy'n galluogi myfyrwyr a all fod yn delio â chyflyrau iechyd hirdymor, salwch neu gyfrifoldebau gofalu i reoli eu dysgu'n fwy effeithiol e.e Cytuno ar addasiadau neu ddyddiadau cau rhesymol.

Dylid cwblhau Cynlluniau Dysgu gydag academydd addas, fel eich Tiwtor Personol neu Arweinydd Rhaglen, a fydd yn cyflwyno'r ffurflen ac yn cyfeirio'r myfyriwr at gefnogaeth bellach os yw'n briodol. Mae cyngor ac arweiniad pellach ar gael gan ASK.

## 34 Sgiliau Dysgu

Mae'r timau Sgiliau Dysgu yn rhoi cefnogaeth un i un, gweithdai a darlithoedd yn seiliedig ar y sgiliau a fydd eu hangen arnoch i gwblhau eich rhaglen astudio.

Rydym yma i'ch cefnogi yn ystod eich amser ym Mhrifysgol Wrecsam ac rydym yn mynd i'r afael â thri phrif faes astudiaeth academaidd:

- Mae **Sgiliau Academaidd** yn rhoi cefnogaeth a chyngor am ysgrifennu academaidd, cyfeirio, meddwl yn feirniadol a rheoli amser.
- Gall **Dysgu Digidol** eich helpu chi i ddefnyddio offer fel Microsoft 365 i greu eich

aseiniadau, rhaglenni fel Microsoft Teams i ymuno â chyfarfodydd a sesiynau ar-lein, a'r VLE i gael mynediad at gynnwys cyrsiau ac i uwchlwytho aseiniadau.

- Mae **Adnoddau Dysgu** (Llyfrgellwyr Cymorth Academaidd) yn cynnig arweiniad ar Resource Finder a defnyddio'r Rhyngrwyd yn effeithiol i ddod o hyd i ddeunyddiau priodol i'ch aseiniad.

Gellir cael mynediad at ragor o wybodaeth ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael o Cymorth Myfyrwyr, Sgiliau Dysgu.

Os ydych yn fyfyriwr sy'n astudio yn un o'n sefydliadau partner, bydd nifer o'r gwasanaethau hyn ar gael i chi ar lefel leol. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth berthnasol ar gael drwy'r ddolen Cymorth Myfyrwyr MyUni hefyd.

## 35 Camymddwyn

Mae disgwyl i fyfyrwyr gadw at reolau a rheoliadau'r Brifysgol, parchu pobl ac eiddo a dangos cwrteisi ac ystyriaeth bob amser, ac mae gan y Brifysgol bolisi sy'n berthnasol i ymddygiad myfyrwyr, a gweithdrefn ddisgyblu myfyrwyr cysylltiedig, sydd ar gael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

Os honnir bod achos o gamymddwyn wedi bod, yna byddwn yn delio gyda chi dan weithdrefn briodol y Brifysgol i fyfyrwyr (gweler isod).

Mae gweithdrefnau disgyblu staff yn berthnasol i fyfyrwyr sydd hefyd yn aelodau o staff yn y Brifysgol. Yn ogystal, mae rheoliadau ar wahân sy'n llywodraethu'r defnydd o gyfleusterau'r Undeb Myfyrwyr. Mae copïau o reoliadau a gweithdrefnau'r Undeb Myfyrwyr ar gael gan yr Undeb Myfyrwyr.

Efallai y bydd rhai myfyrwyr yn ymgymryd â lleoliad gwaith fel rhan o'u rhaglen.  Yn ystod eu lleoliad profiad gwaith, rhaid i fyfyrwyr sicrhau eu bod yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn unol â'r safonau sy'n ddisgwyliedig (gan y Brifysgol, y Darparwr Lleoliad a'r Corff Rheoleiddiol Statudol Proffesiynol). Cofiwch eich bod yn cynrychioli'r Brifysgol a'r Proffesiwn bob amser, bydd unrhyw bryderon a gaiff eu codi gan y Darparwr Lleoliad yn cael eu hystyried o dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

Os cyflwynir honiad o gamymddygiad academaidd yn eich erbyn, yna rhaid i chi ddarllen y gweithdrefnau y bydd y Brifysgol yn eu dilyn, er mwyn i chi fod yn ymwybodol o'ch hawliau a chyfrifoldebau. Mae'r weithdrefn yn cynnwys 'gwrandawiad'. Os cewch eich hun mewn sefyllfa lle'r ydych wedi'ch cyhuddo o gamymddygiad academaidd, cynghorir chi i fynychu'r gwrandawiad i roi eich adroddiad chi o'r digwyddiad, neu gyflwyno'r amgylchiadau yr arweiniodd atoch yn torri safon yr ymddygiad academaidd sy'n ofynnol. Gallwch gael copi o'r weithdrefn ar gyfer Uniondeb Academaidd drwy wefan Prifysgol Wrecsam.

**Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr**

Ble honnir bod myfyriwr yn euog o gamymddygiad, bydd yr honiad yn cael ei ystyried dan y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr. Mae hyn ar gael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

**Camymddygiad Proffesiynol ac Addasrwydd ar gyfer Ymarfer**

Mae gofyn i fyfyrwyr sy'n paratoi ar gyfer dyfarniad sy'n rhoi cymhwysedd i ymarfer, er enghraifft ym mhroffesiynau nyrsio, gwaith cymdeithasol neu addysgu, arddangos y safonau ymddygiad sy'n ddisgwyliedig o'r proffesiwn hwnnw. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys cyfnodau o ymarfer lleoliad profiad gwaith. Pan fo rheolau ymddygiad proffesiynol yn cael eu torri mewn modd sy'n awgrymu nad yw'r myfyriwr o bosibl yn berson addas i ymarfer y proffesiwn hwnnw, yna ystyrir honiadau drwy weithdrefnau penodol, a elwir yn 'Addasrwydd i Ymarfer'. Mae'r weithdrefn hon ar gael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

**Addasrwydd i Astudio**

Yn unol ag agenda ehangu cyfranogiad y Brifysgol, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i gefnogi myfyrwyr sydd â chyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial deallusol drwy wneud cynnydd yn eu cwrs astudio. Bwriedir y polisi Addasrwydd i Astudio ddarparu ymateb cadarnhaol a chefnogol i faterion iechyd myfyrwyr. Serch hynny, mae'r Brifysgol hefyd yn disgwyl safon ymddygiad dderbyniol gan ei myfyrwyr ac nid yw problemau iechyd yn golygu bod y cyfrifoldebau hynny yn cael eu diddymu ar ran myfyrwyr. Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i bob aelod o gymuned y Brifysgol (myfyrwyr a staff) a lle mae ymddygiad myfyriwr unigol yn bygwth llesiant unrhyw aelod o'r gymuned honno, bydd y Brifysgol yn gweithredu yn unol â'r weithdrefn hon i liniaru'r bygythiad hwnnw. Bwriedir y bydd y weithdrefn hon yn darparu mecanwaith cadarnhaol ar gyfer ymdrin ag ymddygiad amhriodol myfyrwyr oherwydd salwch neu anabledd ac yn cynnig opsiwn arall i ddilyn y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr. Mae'r polisi hwn ar gael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

**Camymddygiad Rhywiol a Thrais**

Mae gan y Brifysgol bolisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais i staff a myfyrwyr er mwyn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr a staff yn cael eu trin gydag urddas a pharch, ac yn trin eraill yn yr un modd, ac yn rhydd rhag camymddygiad rhywiol a thrais. Nod y Brifysgol yw darparu amgylchedd diogel a chefnogol i fyfyrwyr gael astudio a rhyngweithio gyda myfyrwyr eraill, staff ac ymwelwyr, a lle gall staff weithio'n rhydd rhag unrhyw gamymddygiad rhywiol a thrais. Gallwch ddod o hyd i gyngor ac arweiniad pellach ar wefan Cymorth Myfyrwyr ar y Porth Myfyrwyr. Mae'r polisi llawn a'r weithdrefn ar gael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

Am gymorth a chyngor annibynnol ar faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad, argymhellir eich bod yn cysylltu â Chanolfan Gynghori Undeb y Myfyrwyr: suadvice@wrexham.ac.uk https://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk/main-menu/advice.

UM Wrecsam
Wrexham SU

## 36 Cofrestru ar Fodiwl

Drwy gofrestru ar gyfer modiwlau, rydych yn ymrwymo eich hun i ymgysylltu'n llawn ag addysgu

a dysgu a chwblhau'r holl ofynion gwaith cwrs a/neu arholiadau ar gyfer y modiwlau yr ydych wedi'u dewis. **Os nad ydych wedi cofrestru'n ffurfiol ar fodiwlau mae'n bosib na chewch gydnabyddiaeth am y gwaith yr ydych yn ei wneud yn eich modiwlau.** Bydd y wybodaeth yr ydych yn ei darparu ar y ffurflen ymrestru yn cael ei defnyddio i roi mynediad i chi at dudalen VLE MyUni ar gyfer pob modiwl yr ydych wedi cofrestru arno, bydd yn cysylltu â'ch amserlen bersonol a'i defnyddio i brosesu eich canlyniadau ar ddiwedd pob semester a/neu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. **Felly, rhaid i chi sicrhau bod system cofnodion myfyrwyr y Brifysgol yn cynnwys gwybodaeth fanwl gywir a chyfredol ynglŷn â'r modiwlau yr ydych yn eu hastudio bob semester.**

Mewn rhai achosion, bydd eich rhaglen yn cynnig modiwlau opsiynol a bydd angen i chi ystyried, gydag Arweinydd eich Rhaglen, pa rai sydd fwyaf addas i chi eu hastudio.
Er mwyn gwneud newidiadau i'ch dewis modiwlau, bydd angen i chi gwblhau ffurflen "Newid Modiwl", sydd ar gael yn Cymorth Myfyrwyr, Gweinyddiaeth Myfyrwyr, Ffurflenni. Bydd angen i Arweinydd eich Rhaglen arwyddo a chymeradwyo'r cais cyn y gellir prosesu unrhyw newidiadau yn ffurfiol. Fel rheol, y dyddiad cau ar gyfer newidiadau i'ch dewis modiwlau yw diwedd yr ail wythnos addysgu lawn yn y semester perthnasol. **Fel rheol ni ellir gwneud unrhyw newidiadau ar ôl y dyddiadau hyn.** Rhaid i unrhyw gais eithriadol i newid cofrestriadau ar fodiwlau llai na 6 wythnos cyn asesiad modiwl terfynol gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, neu ei enwebai.

**Hysbysiadau am Ganlyniadau**
Yn ystod y flwyddyn, cewch farciau dros dro gan eich tiwtoriaid fel rhan o'ch adborth ar asesiadau. Diben hyn yw eich helpu gyda'ch dysgu, rhoi arwydd o ba mor dda ydych yn cyflawni a beth sydd angen i chi ei wneud i wella yn y dyfodol. Serch hynny, mae'r marciau dros dro yn amodol ar gadarnhad gan Fwrdd Asesu Prifysgol. Ar ôl y Byrddau Asesu, byddwch yn derbyn eich canlyniadau terfynol ar-lein.

## 37 Dysgu ar-lein - offer, arweiniad ac ymddygiad

Pa bynnag raglen rydych wedi ymrestru arni yn y Brifysgol, byddwch yn defnyddio nifer o dechnolegau digidol drwy gydol eich astudiaethau, gan gynnwys Rhith-amgylchedd Dysgu (VLE) (gweler uchod) a Microsoft Office (sy'n rhad ac am ddim i bob myfyriwr ymrestredig). Ewch i dudalennau Sgiliau a Dysgu Digidol ar y tudalennau Cymorth Myfyrwyr i gael arweiniad a chymorth ynghylch sut i ddefnyddio offer digidol.

Efallai bydd rhai cyrsiau'n cynnwys elfen o ddysgu ar-lein, a bydd eraill yn ar-lein yn llwyr. Efallai yr hoffech ddarllen ein canllawiau ynghylch dysgu ar-lein, sy'n rhoi awgrymiadau ar fod yn ddysgwr ar-lein effeithiol, cyfathrebu ar-lein a chymryd rhan mewn sesiynau byw ar-lein.

**Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (AI)**
Gall offer Deallusrwydd Artiffisial fod yn ddefnyddiol i gefnogi eich gwaith academaidd, ond mae angen i chi fod yn ofalus a gweithio o fewn canllawiau'r Brifysgol ar gyfer Uniondeb Academaidd.

Mae canllawiau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol Myfyrwyr y Brifysgol yn amlinellu defnydd priodol ac yn sicrhau eich bod yn datgan pa GenAI rydych chi wedi'i ddefnyddio a sut, fel y dangosir yng nghanllaw Sgiliau Dysgu'r Brifysgol: AI Cynhyrchiol.

**Ymddwyn yn ddiogel ac yn barchus ar-lein**

Mae'n bwysig cofio bod y disgwyliadau a'r moesau ar gyfer ymgysylltu yn yr amgylchedd ar-lein yr un fath â'r disgwyliadau a'r moesau ar gyfer ymgysylltu â chymuned y Brifysgol yn ei mannau ffisegol. Rhaid i chi drin eich cyd-fyfyrwyr a phob aelod o staff â hurddas a pharch, a bod yn gefnogol, yn broffesiynol ac yn gynhwysol.

Atgoffir myfyrwyr y disgwylir iddynt gydymffurfio â thelerau ac amodau defnyddio rhwydwaith a Chyfleusterau TG Prifysgol Wrecsam, sy'n nodi:

"Mae defnyddwyr wedi'u gwahardd rhag defnyddio'r adnoddau TG mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio neu sy'n debygol o aflonyddu, bygwth neu beri cywilydd neu dramgwydd yn fwriadol ar unrhyw unigolyn arall.

Fodd bynnag, dylai trin eraill â pharch hefyd fod yn berthnasol wrth ddefnyddio unrhyw offeryn digidol, nid dim ond systemau'r Brifysgol, er enghraifft cyfryngau cymdeithasol (gweler yr adran isod). Mae'r Polisi a'r Weithdrefn Gwrth-Aflonyddu a Gwrth-Fwlio yn berthnasol yn yr un modd i'r amgylchedd ar-lein.

## 38 Cosb am Fynd Dros y Nifer Geiriau

Bydd cosb am fynd dros y nifer geiriau yn berthnasol i'r holl fodiwlau sy'n cynnwys marcio rhifiadol; ni ddylai'r nifer geiriau gynnwys atodiadau, llyfryddiaethau neu gyfeiriadau. Wrth gyflwyno aseiniadau, nodwch y nifer geiriau, ac eithrio'r eitemau sydd wedi'u nodi uchod.

Y gosb am fynd dros y nifer geiriau yw 5 marc fesul 1000 o eiriau dros y nifer geiriau, gyda 10% o ryddid yn uwch na'r nifer geiriau cyn bod y gosb yn cael ei chymhwyso.

## 39 Beichiogrwydd, Mamolaeth, Mabwysiadu a Gofalwr Eilradd (Tadolaeth) Myfyrwyr

Mae Prifysgol Wrecsam yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau i'r holl fyfyrwyr a bydd yn cefnogi myfyrwyr sy'n dod yn feichiog neu'n rhiant yn ystod eu cyfnod astudio. Creda'r Brifysgol na ddylai dod yn feichiog neu'n rhiant fod yn rhwystr i unrhyw fyfyriwr sy’n dechrau, llwyddo neu gwblhau ei astudiaethau. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddangos cymaint
o hyblygrwydd â phosib i hwyluso mynediad myfyrwyr, gan sicrhau nad oes unrhyw fyfyriwr dan anfantais, a chynnal safonau academaidd uchel.

Ni fydd y Brifysgol yn gwahaniaethu yn erbyn myfyrwyr yn ystod y broses dderbyniadau neu unrhyw ran o'r profiad addysgol, nac wrth gynnig neu ddarparu gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Brifysgol. Ni fydd myfyrwyr yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn neu eu trin yn anffafriol

oherwydd: eu beichiogrwydd, terfynu beichiogrwydd, mamolaeth, absenoldeb mabwysiadu, bwydo ar y fron neu oherwydd eu bod yn bartner i unigolyn sy'n feichiog, wedi rhoi genedigaeth neu'n bartner i unigolyn sydd wedi mabwysiadu plentyn.

Mae iechyd a diogelwch myfyriwr beichiog yn hollbwysig bob amser a bydd staff yn ymdrin â'r holl fyfyrwyr sy'n cael eu cynnwys yng nghwmpas y polisi hwn mewn modd sensitif, cyfrinachol a heb fod yn feirniadol.

Bydd aelodau o staff y mae angen iddynt gael eu hysbysu am reswm dilys, yn cael gwybod am amgylchiadau'r myfyriwr, a gwneir hyn gyda chaniatâd gan y myfyriwr.

Gallwch gyfeirio at y polisi, gweithdrefn a'r canllawiau yn llawn ar y Porth Myfyrwyr.

## 40 Sicrhau Ansawdd ac Ymglymiad Myfyrwyr

Anogir myfyrwyr i rannu eu barn a'u hadborth ar eu profiad dysgu, mae hyn yn ein helpu i wneud gwelliannau ar lefel y rhaglen, y gyfadran a'r brifysgol. Mae'r fframwaith ar gyfer Ymgysylltu â Myfyrwyr yn rhoi amlinelliad o'r cyfleoedd i fyfyrwyr roi eu hadborth a sut mae'r Brifysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon.

**Cynrychiolwyr Myfyrwyr**
Mae Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn adnodd hollbwysig mewn perthynas ag adborth myfyrwyr. Ar ddechrau pob blwyddyn, rydym yn annog myfyrwyr i ddewis eu hunain, neu enwebu rhywun o'u grŵp, i fod yn Gynrychiolydd Myfyrwyr a fydd yn gweithredu fel llefarydd y grŵp. Gall yr unigolyn hwnnw fod yn bwynt cyfathrebu canolog rhwng y grŵp ac aelodau o staff. Mae Undeb Myfyrwyr y Brifysgol yn rhoi hyfforddiant i'r holl Gynrychiolwyr Myfyrwyr yn ogystal â llawlyfr, sydd wedi'i ddatblygu gan Undeb y Myfyrwyr a chan Swyddogion y Brifysgol, ac mae'n nodi rôl y Cynrychiolydd Myfyrwyr. Cewch eich annog i ystyried dod yn Gynrychiolydd Myfyrwyr. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn Cymorth Myfyrwyr, Cynrychiolwyr Myfyrwyr.

**Unitu**
Unitu yw lle gall myfyrwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr godi materion yn anffurfiol, gofyn cwestiynau a chynnig syniadau neu ganmoliaeth. Mae'n helpu'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i gydweithio â myfyrwyr i gyflawni gwelliannau cyflymach i brofiad myfyrwyr. Gall myfyrwyr ddefnyddio'r offeryn adborth ar-lein hwn yn ddienw neu gallant roi manylion cyswllt i dderbyn ymateb.

**Fforwm Llais Myfyrwyr**
Cynhelir Fforymau Llais Myfyrwyr fel arfer unwaith y semester ac maent yn rhoi cyfleoedd i Fyfyrwyr roi adborth i staff am eu rhaglen a phrofiad cyffredinol y myfyrwyr.

Mae'n cefnogi monitro a gwella'r rhaglen(ni) cyfredol yn barhaus ac yn bwydo i drafodaethau lefel sefydliadol lle bo'n briodol.

**Gwerthuso Modiwlau Myfyrwyr (SEMs)**

Mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i dimau rhaglenni wneud trefniadau i chi roi sylwadau ar y modiwlau rydych chi'n eu cymryd, fel arfer trwy arolwg ar-lein Gwerthuso Modiwlau Myfyrwyr (SEM). Mae'n bwysig eich bod chi'n manteisio ar y cyfle hwn i roi sylwadau ar fodiwlau rydych chi'n eu cymryd.

**Arolygon Myfyrwyr Allanol**

Ar lefel ehangach, mae nifer o arolygon myfyrwyr annibynnol ledled y wlad y gallech gael eich gwahodd i'w cwblhau i roi eich adborth ar eich amser ym Mhrifysgol Wrecsam, y mae'r Brifysgol yn defnyddio'r canlyniadau hyn i wella profiad y myfyrwyr.

**Arolwg Canlyniadau Graddedigion**

Gofynnir i bob graddedig sy'n cwblhau cwrs addysg uwch yn y DU gymryd rhan yn yr arolwg 15 mis ar ôl iddynt orffen eu hastudiaethau. Mae cwblhau'r Arolwg Canlyniadau Graddedigion yn gam hanfodol i raddedigion, gan roi cipolwg gwerthfawr ar dueddiadau cyflogaeth, dilyniant gyrfa, a datblygu sgiliau. Cynhelir yr arolwg yn annibynnol ar HESA (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch).

**ISB**

Y Baromedr Myfyrwyr Rhyngwladol (ISB) yw'r arolwg profiad myfyrwyr rhyngwladol o fyfyrwyr cofrestredig. Cynhelir yr arolwg yn flynyddol ac mae'n cwmpasu pob agwedd ar brofiad myfyrwyr. Mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr rhyngwladol rannu eu barn ar eu profiad dysgu.

**NSS**

Os ydych chi ym mlwyddyn olaf rhaglen israddedig, efallai y byddwch chi'n gymwys i gymryd rhan yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (ACC). Mae'r ACC yn rhoi cyfle i fyfyrwyr rannu eu barn ar yr hyn sydd wedi bod yn dda am eu profiad Prifysgol a'r hyn a allai fod wedi bod yn well fel y gall y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr barhau i adolygu rhaglenni a gwneud gwelliannau i brofiad y myfyrwyr. Mae'r arolwg fel arfer ar agor o fis Ionawr i fis Mai bob blwyddyn ac fe'i gweinyddir gan Ipsos MORI, asiantaeth ymchwil marchnad annibynnol. Mae cyfranogwyr a'u hymateb yn aros yn anhysbys bob amser.

**PTES**

Mae'r Arolwg Profiad Addysgu Ôl-raddedig neu PTES yn arolwg cenedlaethol a gynhelir yn flynyddol. Mae'r arolwg ar agor i fyfyrwyr addysgu ôl-raddedig llawn amser a rhan amser ac mae'n eich gwahodd i roi sylwadau ar eich profiad. Cynhelir yr arolwg yn annibynnol ar y Brifysgol gan Advance HE.

**Cyfleoedd Gwirfoddoli Myfyrwyr**

I fyfyrwyr sy'n awyddus i gyfrannu ac ymgysylltu â sicrhau ansawdd ar lefel ehangach, mae'r rolau canlynol ar gael:

**Cynrychiolwyr Pwyllgor Myfyrwyr**

Mae Cynrychiolydd Pwyllgor Myfyrwyr yn fyfyriwr sy'n dod yn aelod o Bwyllgor Prifysgol am gyfnod penodol (y tymor lleiaf yw un Flwyddyn Academaidd) i gynrychioli cymuned y myfyrwyr

mewn cyfarfodydd pwysig ledled y Brifysgol. Mae cyfleoedd ar draws pob lefel o strwythur y pwyllgor.

**Adolygwyr Myfyrwyr**

Penodir adolygwyr myfyrwyr i bob panel ar gyfer adolygu a chymeradwyo rhaglenni newydd (dilysiadau) ac ail-gymeradwyo rhaglenni (ail-ddilysiadau lefel pwnc). Maent yn darparu persbectif myfyrwyr ac yn sicrhau bod profiad myfyrwyr wedi'i ystyried wrth gymeradwyo'r rhaglen(ni).

Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy am sut allwch chi gymryd rhan, cwblhewch y ffurflen hon i gofrestru eich diddordeb: Gwirfoddolwyr Myfyrwyr Prifysgol Wrecsam.

## 41 Cydnabyddiaeth o Ddysg Flaenorol

Os ydych yn credu eich bod o bosibl yn gymwys am eithriad rhag astudio rhai modiwlau ar eich rhaglen oherwydd bod gennych brofiad blaenorol neu eich bod eisoes wedi ymgymryd ag astudiaeth gyfwerth, mae angen i chi gyflwyno cais wedi'i chwblhau'n llawn i gydnabod dysg (drwy brofiad) flaenorol gyda thystiolaeth ategol, **o fewn un mis o ymrestru ar eich rhaglen.** Mae canllawiau ychwanegol i'w cael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

Cysylltwch ag arweinydd eich rhaglen am gymorth i gyflwyno cais cydnabod dysg (drwy brofiad) flaenorol. Byddwch yn ymwybodol ni ellir ystyried cais cydnabod dysg (drwy brofiad) flaenorol unwaith y bydd marciau eich modiwlau wedi'u cyflwyno i Fwrdd Asesu.

## 42 Recordio Sesiynau a Gweithgareddau Addysgol

Mae gan y Brifysgol bolisi cynhwysfawr sy'n manylu ar yr hyn sy'n dderbyniol ac nad yw'n dderbyniol o ran recordio sesiynau a gweithgareddau. Diben y polisi hwn yw sicrhau bod ymagwedd gyson a chyfrifol at yr holl sesiynau a gweithgareddau cipio dysgu gan aelodau staff y Brifysgol, gan ystyried yr agweddau addysgeg, cyfreithiol, hygyrchedd, eiddo deallusol a diogelu data. Ei nod yw darparu eglurder ar hawliau a disgwyliadau'r Brifysgol, ei staff a myfyrwyr a thrydydd partïon. Dylai aelodau o staff ei gwneud hi'n glir i fyfyrwyr bod ffrydio'n fyw neu recordio yn digwydd ar ddechrau unrhyw recordiad.

Byddwch yn ymwybodol, os ydych yn dymuno gwneud recordiad clywedol neu fideo o sesiwn ddysgu neu addysgu, mae'n bosibl y bydd angen caniatâd arnoch i wneud hynny. Ni fydd y caniatâd yn cael ei atal yn afresymol.

Gall eich tiwtor recordio eich sesiynau dysgu ac addysgu a rhannu'r recordiadau gyda'ch dosbarth neu grŵp o fyfyrwyr i'w gwylio/gwrando arnynt eto yn ddiweddarach. Os yw eich dosbarth yn cael ei recordio, dylech fod yn ymwybodol o hyn ymlaen llaw. Os byddai'n well gennych beidio â recordio eich delwedd neu lais, gwnewch eich tiwtor yn ymwybodol o hyn, gan y dylai fod yn bosibl ei ddileu.

I weld manylion llawn polisi'r Brifysgol ar recordio darlithoedd, a'r weithdrefn i gael caniatâd i'w recordio eich hunain, gweler Sgiliau Dysgu Prifysgol Wrecsam.

## 43 Cyfryngau Cymdeithasol

Gwnewch yn siŵr nad yw eich profiad o rwydweithio cymdeithasol yn troi'n un annymunol.

Amddiffynwch eich gwybodaeth bersonol.

- Gall llawer o bobl weld yr hyn rydych chi'n ei bostio ar wefan, a gellir defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei bostio mewn twyll hunaniaeth neu gall ddenu sylw digroeso, peidiwch â phostio eich cyfeiriad na'ch rhif ffôn na gwybodaeth bersonol arall fel dyddiad geni neu unrhyw beth a fyddai'n cael ei ddefnyddio mewn cwestiynau diogelwch banc.
- Mae'r gosodiad diofyn ar gyfer eich proffil yn ei gwneud yn weladwy i'ch holl rwydweithiau – gallai hyn fod yn gannoedd neu'n filoedd o bobl.

PEIDIWCH â phostio unrhyw beth sy'n achosi embaras.

- Cofiwch y gallai eich teulu, staff y Brifysgol neu gyflogwyr yn y dyfodol ei weld.
- Cofiwch y gallai unrhyw wybodaeth a bostiwch am ffrindiau a theulu achosi embaras neu broblemau iddynt.
- Unwaith y bydd gwybodaeth wedi'i phostio ar-lein, mae bron yn amhosibl ei dileu oherwydd archifo a rhannu ffeiliau.

PEIDIWCH â phostio unrhyw beth enllibus neu ddirmygus neu a all achosi tramgwydd neu embaras i eraill.

- Gallai hyn arwain at y Brifysgol yn cymryd camau disgyblu yn eich erbyn. Mewn rhai amgylchiadau gallai arwain at gamau cyfreithiol, er enghraifft o dan Ddeddf Enllib 1996.
- Er bod unigolion yn rhydd i fynegi eu barn bersonol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, dylent egluro mai eu barn eu hunain yw eu barn ac nad yw'n cynrychioli Prifysgol Wrecsam oni nodir yn benodol fel arall.

Dylai unigolion arfer disgresiwn ac ystyried canlyniadau posibl cyn postio cynnwys a allai adlewyrchu'n negyddol arnynt eu hunain neu enw da'r Brifysgol. Gall y Brifysgol gymryd camau os yw'n credu bod postiadau cyfryngau cymdeithasol yn enllibus neu mewn unrhyw ffordd arall yn niweidiol i enw da neu safle'r Brifysgol.

Cyfeiriwch hefyd at y wybodaeth yn yr adran Aflonyddu a Bwlio uchod.

## 44 Ffynonellau gwybodaeth, cymorth ac arweiniad

**Bywyd Myfyrwyr a Champws**
Cael mynediad at gymorth:

- Cwnsela ac Iechyd Meddwl
- Cyngor ar Gyllid ac Arian
- Caplaniaeth
- Llesiant
- Chynhwysiant
- Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Gallwch gyrchu'r gefnogaeth hon drwy gysylltu â Bywyd Myfyriwr a Champws drwy ask@wrexham.ac.uk. Fel arall ewch i Target Connect drwy ein tudalennau gwe i fewngofnodi i gael cefnogaeth. Neu dewch i ASK yn Adeilad Edward Llwyd, lle bydd y Tîm Cymorth Myfyrwyr yn gallu eich cynorthwyo i gael mynediad i Bywyd Myfyrwyr a Champws a gwasanaethau eraill y brifysgol.

Gallwch ddysgu mwy am y gwahanol dimau cymorth myfyrwyr a sut maen nhw'n gweithio gyda myfyrwyr yma.

**Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd**
Fel gwasanaeth cymorth Prifysgol, rydym yn darparu addysg, gwybodaeth a chanllawiau ynghylch gyrfaoedd i raddedigion, y myfyrwyr presennol a phob myfyriwr posib. Rydym yn gwneud hyn drwy roi cymorth i deithiau dysgu drwy'r Brifysgol a hyd at gyflogaeth neu addysg bellach a thrwy wireddu Strategaeth Cyflogadwyedd y brifysgol.

Drwy weithio'n agos gyda chyflogwyr rydym yn hyrwyddo eu swyddi gwag, cyfleoedd i wirfoddoli a gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalennau gwefan Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.

**Cyllid Myfyrwyr a Chyngor Ariannol**
Wrth i chi ddechrau ar eich astudiaethau a thrwy gydol eich cyfnod fel myfyriwr, mae rheoli'ch cyllidebau a'ch llesiant yn bwysig. Wrth i chi ddechrau ar eich astudiaethau a thrwy gydol eich cyfnod fel myfyriwr, mae rheoli'ch cyllidebau a'ch llesiant yn bwysig. Mae'r Tîm Cyllid a Llesiant yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth cymorth proffesiynol, cyfrinachol o ansawdd mewn amgylchedd cyfeillgar, anffurfiol drwy gydol eich astudiaeth. Am ragor o wybodaeth, gweler Cymorth i Fyfyrwyr, Cyllid Myfyrwyr a Chyngor Ariannol.

**Gwasanaeth Cwnsela ac Iechyd Meddwl**
Mae Gwasanaeth Cwnsela ac Iechyd Meddwl Prifysgol Wrecsam yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol, proffesiynol a hygyrch i fyfyrwyr mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae hyn yn cynnwys cwnsela un i un, gwybodaeth hunangymorth, rhaglenni hunangymorth. Mae gan gwnselwyr a'r tîm iechyd meddwl hefyd fynediad at rwydwaith cynhwysfawr o wasanaethau allanol a all gefnogi anghenion unigol. Mae gwybodaeth fwy manwl ar gael yn Cymorth i Fyfyrwyr, Cwnsela.

**Gofal Iechyd**
Cynghorir yr holl fyfyrwyr sy'n astudio oddi cartref i gofrestru gyda meddyg teulu lleol. Wedi iddynt gofrestru, gall myfyrwyr y DU gael eu trin fel preswylwyr dros dro pe byddant yn mynd yn sâl wrth ymweld â'u tref enedigol. Darperir rhestr o feddygon teulu lleol i fyfyrwyr newydd fel rhan o'r broses gynefino. Mae'r Adran Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd a'r Undeb Myfyrwyr yn cynnal digwyddiadau hyrwyddo iechyd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Nod y digwyddiadau hyn yw rhoi digon o gyngor ar fyw'n iach, yn enwedig i'r myfyrwyr hynny sy'n byw oddi cartref am y tro cyntaf. Mae hefyd yn rhoi cysylltiadau â grwpiau cymorth iechyd eraill.

**Caplaniaeth**
Mae'r Gaplaniaeth yma i gefnogi myfyrwyr yn ysbrydol (pob ffydd a di-gred) ac i'ch helpu chi i archwilio'r cwestiynau mawr mewn bywyd. Maent yno hefyd i wrando petaech angen sgwrs gyda rhywun. Mae Swyddfa'r Gaplaniaeth wedi'i lleoli ar ail lawr Adeilad Edward Llwyd, ynghyd â'r Ystafell Dawel, ystafell lle cewch weddïo, myfyrio neu synfyfyrio, ac mae'r gaplaniaeth yn cynnal cyfarfodydd addoli yn rheolaidd. Gallwch ganfod mwy am beth all y Gaplaniaeth ei chynnig, gan gynnwys grwpiau a digwyddiadau yn Cymorth Myfywyr, Caplaniaeth.

**Gwasanaethau Cynhwysiant**
Mae'r tîm Gwasanaethau Cynhwysiant yn ymroddedig i gefnogi myfyrwyr sydd ag anabledd neu gyflyrau iechyd hirdymor. Pa un ai a ydych eisoes yn ymwybodol bod anghenion unigol posibl yn sgil anabledd, cyflwr meddygol, neu anhawster dysgu penodol, megis dyslecsia, neu fod yr angen am gefnogaeth yn codi yn ystod eich astudiaethau - mae'r Gwasanaethau Cynhwysiant yma i helpu. Mae ystod o wasanaethau i'ch helpu chi yn syth o'r pwynt yr ydych yn dewis datgan anabledd neu anhawster dysgu. Gellir cael mynediad at ragor o wybodaeth ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael o Cymorth Myfyrwyr Gwasanaethau Cynhwysiant.

**Canolfan Gyngor Undeb y Myfyrwyr**
Mae Canolfan Gyngor Undeb y Myfyrwyryn cynnig cyngor annibynnol a diduedd ar reoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol, fel Apeliadau Academaidd, Uniondeb Academaidd, Amgylchiadau Esgusodol, Cwynion ac Ymddygiad. Mae Cynghorwyr Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi myfyrwyr i ystyried eu hopsiynau, llenwi'r ffurflenni angenrheidiol a mynychu cyfarfodydd a gwrandawiadau gyda'r Brifysgol.

UM Wrecsam
Wrexham SU

**Gall myfyrwyr gysylltu â'r Ganolfan Gynghori** ar suadvice@wrexham.ac.uk.

## 45 Siarter Myfyrwyr

Mae Prifysgol Wrecsam yn ymroddedig i ddarparu'r gwasanaeth o'r ansawdd orau i'n holl fyfyrwyr ac mae'r Siarter Myfyrwyr yn rhoi gwybod i chi beth allwch ei ddisgwyl gan y Brifysgol a beth y gallwn ddisgwyl gennych chi. Credwn mai er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae angen i ni greu cymuned ddysgu, sy'n dangos parch at y ddwy ochr a bod ein myfyrwyr yn chwarae rôl allweddol yn natblygiad cyfleoedd addysgol o safon uchel sy'n agored i bawb.

Nid yw'r Siarter Myfyrwyr yn ddogfen sy'n eich rhwymo'n gyfreithiol; datganiad o fwriad ydyw

sy'n disgrifio prif nodweddion y Gymuned Ddysgu mae Prifysgol Wrecsam yn dymuno ei sefydlu. Mar copi o Siarter y Myfyrwyr i'w gael ar wefan Prifysgol Wrecsam a gwefan Undeb y Myfyrwyr.

## 46 Gwobrau Myfyrwyr

Dyfarnir nifer o wobrau myfyrwyr bob blwyddyn. Mae gwobrau yn adlewyrchu gwaith eithriadol o lefel gradd sylfaen i lefel PhD ar draws yr ystod lawn o bortffolio academaidd y Brifysgol. Mae rhai gwobrau ar ffurf arian, ac mae'r cwbl yn adlewyrchu ymrwymiad Prifysgol Wrecsam i gydnabod gwaith caled a lefelau cyflawni uchel ein myfyrwyr. Os oes gennych ymholiadau mewn perthynas â chymhwysedd ar gyfer gwobrau, gwiriwch gyda'ch Arweinydd Rhaglen.

## 47 Cofnodion Myfyrwyr

Mae gan bob myfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam ei Rif Myfyriwr ei hun. Caiff y wybodaeth ei chadw'n ganolog gan y Gyfarwyddiaeth Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr ac mae ar gael, fel sy'n briodol, i Arweinwyr Rhaglenni. Gallwch weld rhannau o'ch cofnod myfyrwyr ar-lein drwy'r ddolen Cofnod Myfyriwr drwy borth MyUni. Os nad yw'r cofnod hwn yn gywir, mi fydd y porth hwn yn eich galluogi i ddiweddaru eich manylion personol.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y wybodaeth yno yn gyfredol a manwl gywir. Gallwch newid eich cyfeiriad ar-lein gan ddefnyddio'r cyfleuster 'Gwirio eich cofnod myfyrwyr'. Os ydych yn newid eich enw neu'n trosglwyddo rhaglenni, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'r Brifysgol yn ysgrifenedig neu drwy'r adran Ffurflenni ar y tudalennau Gweinyddiaeth Myfrywyr, drwy'r Porth Myfyrwyr.

## 48 Cyflwyno Aseiniadau Gwaith Cwrs

Cyflwyno'n electronig drwy VLE MyUni yw'r ffurf ofynnol i fyfyrwyr gyflwyno gwaith cwrs, oni bai eu bod wedi cael caniatâd penodol ar gyfer dull cyflwyno arall ar gyfer rhai modiwlau neu elfennau, e.e. cyflwyniadau. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn cyflwyno'r fersiwn cywir o unrhyw asesiadau yn y fformat a nodwyd a thrwy'r platfform y cytunwyd arno. Dylai'r drefn enwi ddisgwyliedig ar gyfer ffeiliau a gyflwynir yn electronig fod ar ffurf Myfyriwr_*Rhif–Modiwl_Cod–Asesiad_Rhif*. Os nad ydych yn cyflwyno'r fersiwn gywir bydd y Brifysgol yn gofyn i'r asesiad gael ei ail-gyflwyno yn y fformat a nodwyd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy'r Porth Myfyrwyr.

## 49 Addasrwydd i Ymarfer

Gweler yr adran Camymddygiad yn y canllaw hwn.

## 50 Atal astudiaethau

Yn ystod eich astudiaethau, mae'n bosibl y byddwch yn profi amgylchiadau sy'n ei gwneud yn anodd i chi barhau ar eich rhaglen. Os ydych yn ystyried atal eich astudiaethau, dylech siarad

â'ch Arweinydd Rhaglen a fydd yn gallu eich cynghori chi am sut i ddatblygu ac a oes gennych sail ddigonol. Byddwch yn ymwybodol y bydd rhaid i geisiadau i atal eich astudiaeth gael eu cytuno'n ffurfiol gan y Brifysgol; bydd rhaid i chi wneud cais i atal eich astudiaethau a chael cymeradwyaeth gan eich Arweinydd Rhaglen (a'r Tîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol sy'n cael nawdd).

**Sail dros atal**

Dyma'r seiliau y gall myfyriwr atal ei astudiaethau:

- Iechyd
- Ariannol
- Amgylchiadau personol eithriadol
- Absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y Polisi Atal Astudiaethau ar gyfer Myfyrwyr ar gael ar wefan Prifysgol Wrecsam.

Mae'r ffurflen Atal Astudiaethau ar gael o'r adran Ffurflenni ar dudalennau Gweinyddiaeth Myfrywyr drwy'r Porth Myfyrwyr.

## 51 Amserlenni

Cynghorir myfyrwyr i ddefnyddio amserlen academaidd y Brifysgol, a'u hamserlenni unigol i fyfyrwyr fel eu ffynhonnell ddiffiniedig o wybodaeth amserlennu. Mae'r amserlen, a rhagor o ganllawiau ar gael drwy'r ddolen i Amserlenni ar borth MyUni.

## 52 Turnitin

Fel myfyriwr, mae'n bwysig eich bod yn dysgu i gyfeirio eich gwaith yn gywir; fel arall mae'n bosibl y cewch eich cyhuddo o lên-ladrata (gweler yr adran uchod ynglŷn â Llên-ladrata a Gonestrwydd Academaidd). Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam, gallwch ddefnyddio meddalwedd o'r enw Turnitin fel adnodd datblygiadol i helpu i ddysgu am lên-ladrad.

Mae Turnitin yn ddarn o feddalwedd sy'n eich caniatáu chi i uwchlwytho'ch darn o waith ac mae'n dangos tebygrwydd rhwng eich gwaith chi ac eraill yn ei gronfa ddata. Bydd rhagor o wybodaeth ynglŷn â Turnitin, sut mae'n gweithio a sut caiff ei ddefnyddio yn y Brifysgol ei rhoi i chi gan dîm eich rhaglen. Mae'n bosibl y bydd tîm eich rhaglen yn gofyn i chi gyflwyno eich aseiniadau drwy Turnitin fel bod ganddynt gopi electronig i'w farcio ac er mwyn iddynt weld adroddiad tebygrwydd os oes ganddynt bryderon ynghylch eich gwaith wrth ei farcio. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Turnitin, gan gynnwys sut i ddehongli eich adroddiadau tebygolrwydd, ar gael drwy'r dudalen Sgiliau Dysgu ar wefan Cymorth i Fyfyrwyr, drwy'r porth MyUni.

## 53 Myfyrwyr Cymraeg

Er bod y rhan fwyaf o'n dysgwyr yn siaradwyr Saesneg, clywir y Gymraeg gan nifer o'n myfyrwyr a'n staff. Mae darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan bwysig o Strategaeth Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr y Brifysgol.

Waeth beth fo iaith addysgu modiwl, mae gan yr holl fyfyrwyr yr hawl i gyflwyno'r holl waith ysgrifenedig ac arholiadau yn Gymraeg. Os oes well gennych gael eich asesu yn Gymraeg, dylech gysylltu ag Arweinydd eich Rhaglen a fydd yn gallu trafod hyn gyda chi.

## 54 Polisi Tynnu'n Ôl

Mae polisi'r Brifysgol ar dynnu'n ôl wedi'i ymgorffori yn y Polisi Ymgysylltu Academaidd Myfyrwyr sydd ar gael ar dudalen Rheoliadau a Pholisïau Prifysgol Wrecsam.

Mae hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch os ydych chi'n ystyried gadael y Brifysgol. Os ydych chi'n ystyried gadael, fe'ch anogir yn gryf i geisio cyngor gan eich Arweinydd Rhaglen ynghylch materion academaidd a chan eich Tiwtor Personol neu'r Tîm Cymorth Myfyrwyr ynghylch unrhyw broblemau personol neu ariannol. Mae hyn yn eich helpu i archwilio'r holl opsiynau, gan gynnwys atal astudiaethau, trosglwyddo i raglen arall neu newid dull astudio. Ar ôl i chi wneud eich penderfyniad i adael, yna rhaid i chi ac aelod perthnasol o'r staff lenwi Ffurflen Tynnu'n Ôl. Efallai y gofynnir i chi hefyd fynychu cyfweliad ymadael gyda'ch Tiwtor Personol neu Arweinydd Rhaglen er mwyn deall y rhesymau pam rydych chi am adael. Bydd hyn yn caniatáu i'r Brifysgol ddeall pam mae myfyrwyr yn tynnu'n ôl ac felly bydd yn llywio arfer yn y dyfodol. Mae'r ffurflen hon ar gael gan Gymorth Myfyrwyr, Gweinyddiaeth Myfyrwyr, Ffurflenni.

Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y weithdrefn hon os ydych am adael; oherwydd os na wnewch hynny, yna gallai arwain at orfod parhau i dalu ffioedd. Gall y dyddiad union y byddwch yn hysbysu'r Brifysgol o'ch bwriad i dynnu'n ôl effeithio ar faint o'r ffi y mae'n rhaid i chi ei thalu a dylech hefyd ddarllen yr adran ar Ffioedd a Chyllid os ydych yn ystyried tynnu'n ôl o'ch rhaglen. Dylech hefyd ystyried sut y bydd tynnu'n ôl yn effeithio ar eich benthyciad myfyriwr neu fwrsariaeth os oes gennych un. Bydd y Tîm Cyngor Cyllido ac Arian Myfyrwyr yn gallu eich helpu os oes angen rhagor o arweiniad arnoch.

Os nad ydych yn ymgysylltu â'ch cwrs trwy golli darlithoedd, seminarau neu weithdai, yna mae gan y Brifysgol yr hawl i'ch tynnu'n ôl am beidio ag ymgysylltu. Os nad ydych yn ymgysylltu, cysylltir â chi i ofyn pam nad ydych yn ymgysylltu a gofynnir i chi fynychu cyfarfod gyda'r Arweinydd Rhaglen fel y gallwch drafod unrhyw faterion neu broblemau rydych yn eu hwynebu yn ogystal â'r gefnogaeth sydd ar gael i chi. Os na fyddwch yn ymateb, yna gwneir ymdrechion pellach i gysylltu â chi eto. Fodd bynnag, os nad ydych yn ymateb o hyd, yna bydd y Brifysgol yn tybio eich bod wedi tynnu'n ôl o'ch cwrs.

Am gymorth a chyngor annibynnol os ydych wedi cael eich tynnu'n ôl o'ch cwrs, cysylltwch â Chanolfan Gynghori Undeb y Myfyrwyr suadvice@wrexham.ac.uk https://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk/main-menu/advice.

UM Wrecsam
Wrexham SU